

mwldan
Aberteifi / Cardigan

# Beth Sydd Ymlaen
# What's On

Hydref – Mai 2025 / 26
October – May 2025 / 26

# Shwmae | Hello!

## Annwyl gyfeillion,

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae dyfodiad yr hydref wedi golygu bod ein gŵyl flynyddol Lleisiau Eraill bron yma. Rydyn ni'n edrych ymlaen at Hydref 30, 31 a Thachwedd 1 ac at groesawu ffrindiau ac artistiaid hen a newydd i'n tref hyfryd i fwynhau tridiau o gerddoriaeth gyffrous, sgyrsiau a syniadau. Mae'r lein-yp ar gyfer 2025 yn benigamp, ac rydyn ni'n siŵr y byddwch yn darganfod cerddoriaeth wych a bandiau newydd sbon. Os nad ydych wedi prynu eich band arddwrn eto, maen nhw dal ar gael, ond brysiwch gan fod gennym gapasiti cyfyngedig ac rydyn ni'n disgwyl gwerthu pob tocyn.

Chwistrellodd Lleisiau Eraill 2024 fwy na £600,000 i'n heconomi leol a rhoi cyfleoedd cyflogaeth i bron i 200 o artistiaid unigol a chriwiau. A'r un mor bwysig, fe roddodd gyfle i ni i gyd fel cymuned ddod at ein gilydd, mwynhau a dathlu lle rydyn ni'n byw a'r diwylliant rydyn ni'n ei rannu.

Y tu allan i leisiau gwahanol, rydym wrth ein boddau i groesawu ein hactor Matthew Rhys, sydd wedi ennill Gwobr Emmy, i'r Mwldan ar 17 Tachwedd ar gyfer digwyddiad codi arian unigryw ar gyfer WNT. Mae *Playing Burton*, drama un dyn, yn serennu Rhys yn rôl Richard Burton. Daw'r digwyddiad arbennig hwn cyn tymor cyntaf WNT y flwyddyn nesaf ac mae'n cynnig cyfle unigryw i gynulleidfaoedd gefnogi lansiad y cwmni. Roeddem yn arbennig o falch o groesawu Michael Sheen i'r Mwldan yn gynharach eleni, pan ymwelodd i ddysgu mwy am ein gwaith a'n cynlluniau.

Gobeithiwn y byddwch chi'n mwynhau ein rhaglen sydd ar ddod, ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Mwldan cyn bo hir.

## Dear friends,

In recent years, the arrival of autumn has meant that our annual Other Voices festival is nearly here. We're looking forward to October 30, 31 and November 1 and welcoming friends and artists old and new to our wonderful town to enjoy three days of thrilling music, conversation and ideas. The line up for 2025 is just fantastic, and we're sure you're going to discover some brilliant music and new favourite bands. If you haven't bought your wristband yet, they are still available but hurry up as we are operating to a limited capacity and we're expecting to sell out.

Other Voices 2024 injected more than £600,000 into our local economy and supported nearly 200 individual artists and crew with employment. And just as important, it gave us all as a community a chance to come together, enjoy and celebrate the place we live in and the culture we share.

Away from Other Voices, we're delighted to welcome our own Emmy Award-winning actor Matthew Rhys to Mwldan on 17th November for an exclusive fundraising event for Welsh National Theatre. *Playing Burton*, a one-man play, stars Rhys in the role of Richard Burton. This special event comes ahead of WNT's inaugural season next year and offers audiences a unique opportunity to support the company's launch. We were especially pleased to welcome Michael Sheen to Mwldan earlier this year, when he visited to learn more about our work and plans.

We hope you enjoy our upcoming programme, and we look forward to welcoming you to Mwldan very soon.

Cofion cynnes,

Dilwyn Davies,
**Prif Weitheredwr, Mwldan**
Chief Executive, Mwldan

### Cynnwys / Contents


**03 Digwyddiadau Fyw / Live events**
**24 Darllediadau / Broadcasts**
**36 Sinema / Cinema**
**52 CFfTM / TMFS**
**54 Dosbarthiadau / Classes**
**57 Gwybodaeth / Information**
**60 Dyddiadur / Diary**


Delweddd Clawr / Cover Image:
Matthew Rhys - *Playing Burton* t/p 11

# Digwyddiadau byw
# Live events

O theatr Gymreig anhygoel, i'r Lleisiau Eraill Aberteifi nesaf, mae gennym raglen wych o ddigwyddiadau byw ar gyfer pob oed dros y misoedd nesaf.

Gweler digwyddiadau unigol am fanylion tocynnau rhatach.
Gweler mwldan.co.uk am fanylion pellach ac i archebu tocynnau.

Mae pris yr holl docynnau yn cynnwys TAW ac yn amodol ar ffi archebu o 10% (sydd hefyd yn cynnwys TAW) lle bo'n berthnasol (Mae ffioedd archebu wedi'u cyfyngu i uchafswm o £3 y cart).

From spectacular Welsh theatre to the next Other Voices Cardigan festival, we have a great programme of live events for all ages over the coming months.

See individual events for concessionary price details and visit our website mwldan.co.uk for further details and to book.

All ticket prices include VAT and are subject to a 10% booking fee (which also includes VAT) where applicable (Booking fees are limited to £3 maximum per cart).



Llun / Image: Johnny Savage

**Lleisiau Eraill Aberteifi / Other Voices Cardigan 2025**
30 Hydref / October - 1 Tachwedd / November

Gweler tudalen 8 am ragor o wybodaeth | See page 8 for more information




## Glen Johnson
# Wyneb Newydiol Stryd Fawr Aberteifi / The Changing Face of Cardigan High Street

Dydd Sadwrn 4 Hydref
Saturday 4 October
2.00pm / £7

Dyma i chi gyfle i weld prif stryd gyfarwydd Aberteifi mewn golau tra gwahanol, wrth i Glen Johnson, hanesydd lleol, rannu casgliad o ffotograffau yn dangos sut mae'r siopau a'r adeiladau cyfarwydd wedi newid dros y blynyddoedd. Dysgwch am hen adeilad Brawdlys Aberteifi, y tân gwaethaf erioed yn Aberteifi, cysylltiadau simsan Aberteifi â'r Beatles, a llawer mwy!

Nid yw llawer o'r delweddau erioed wedi'u gweld yn gyhoeddus o'r blaen, a bydd sylwebaeth wybodus a ffraeth Glen yn cyd-fynd â nhw. Unwaith y byddwch wedi gweld y lluniau hyn, fyddwch chi byth yn edrych ar Stryd Fawr Aberteifi yn union yr un ffordd eto!

A chance to see the familiar main street of Cardigan in a very different light, as Glen Johnson, local historian, shares a collection of photographs showing how the familiar shops and buildings have changed over the years. Find out about Cardigan's old Assize Court building, Cardigan's worst ever fire, Cardigan's tentative connections with the Beatles, and much more!

Many of the images have never been publicly seen before, and they will be accompanied throughout by Glen's knowledgeable and witty commentary. Once you've seen this, you'll never look at Cardigan High Street in quite the same way again!




# Martin Decker
# DAD

Nos Fawrth 7 Hydref
Tuesday 7 October
7.30pm / £15 (£14)

Gan Keiron Self a Kevin Jones

Beth sy'n gwneud tad gwych? Mae Martin yn meddwl ei fod yn gwybod ac yn benderfynol o rannu'wybodaeth. Mae'r daith ddoniol-dywyll, lawn teimlad hon yn archwilio'r tadau wnaeth siapio Martin- o Darth Vader i'w arwr yn ei blentyndod, Indiana Jones, o'r Tad Cŵl i Dad y Dawnsiwr.

Gan gynnwys ail greu ffilmiau yn fyw, dynwarediadau llai na pherffaith o Harrison Ford a gwahoddedigionannisgwyl ar y sgrin, mae'r sioe hon yn siarad â phob tad sydd erioed wedi ystyried a yw'n ddigon. Ond i Martin mae'n ymddangos bod llawer mwy yn y fantol – ai achub ei fab, neu ei achub ei hunsydd dan sylw?

**Rhybuddion cynnwys: Yn cynnwys themâu alcoholiaeth, cam-drin domestig a marwolaeth.**

By Keiron Self and Kevin Jones

What makes a great dad? Martin thinks he might know and is determined to share it. This darkly funny, heartfelt journey explores the father figures that shaped Martin - from Darth Vader to childhood hero Indiana Jones, from Cool Dad to Dad Dancer.

With live movie reenactments, less-than-perfect Harrison Ford impressions, and surprise guests on screen, this show speaks to every dad who's ever wondered if they're enough. For Martin, though, the stakes feel even higher—is this mission about saving his son, or himself?

**Content warning: Contains themes of alcoholism, domestic abuse and death.**

Cynhyrchiad y Mwldan | A Mwldan Production

# SATORU
## Catrin Finch | Lee House

cerddoriaeth . meddwl . sain . emosiwn
music . mind . sound . emotion

Nos Fercher 8 Hydref
Wednesday 8 October
7.30pm / £18 (£16)



Camwch i mewn i fyd lle mae sain yn troi'n deimlad, ac mae cerddoriaeth yn meiddio holi'r cwestiynau na all geiriau eu gofyn. Mae'r profiad trochol hwn yn asio telyn arbrofol gyda thriniaeth electronig, a'r gair llafar i'ch tywys drwy daith bersonol ddwys, sonig.
Mae pob nodyn, pob ymadrodd yn edau sy'n eich tynnu trwy ddirgelwch, emosiwn a datguddiad. Disgwyliwch gael eich cyffroi, eich cynhyrfu, a'ch trawsnewid.

Step into a realm where sound becomes sensation and music asks the questions words cannot. This immersive performance blends experimental harp with electronic manipulation and spoken word to guide you through a deeply personal, sonic journey. Each note, each phrase is a thread pulling you through mystery, emotion, and revelation. Expect to be stirred, unsettled, and transformed.

**Mae hon yn Gynhyrchiad Taith Mwldan - gweler mwldan.co.uk/tours am ddyddiadau llawn y daith / This is a Mwldan Touring Production - see mwldan.co.uk/tours for full tour dates.**




**Wedi'i Chyflwyno gan Black RAT Productions a Sefydliad y Glowyr Coed Duon / Presented by Black RAT Productions and Blackwood Miner's Institute**

## Dai Cula: Prince of the Valleys

Nos Wener 17 Hydref / Friday 17 October
7.30pm / £15 (£13)

---

Ar ôl gwylio *Who Do You Think You Are?*, mae Count Dracula yn argyhoeddedig bod ganddo waed brenhinol - diolch i gysylltiad amheus rhwng Vlad the Impaler a Thywysog Cymru. Felly, mae'n archebu coffin oddi ar Temu, yn archebu Airbnb iddo'i hun, ac yn cychwyn am y Goedwig Ddu... dim ond glanio yn y Coed Duon yng Nghymoedd De Cymru! Ar y dechrau, mae'r bobl leol yn meddwl ei fod yn ecsentrig mewn clogyn. Ond pan fydd pobl yn dechrau diflannu'n ddirgel ac mae rheoli plâu yn cael ei alw i ymchwilio i broblem ystlumod sydyn, mae'r dref yn dechrau meddwl tybed a yw eu hymwelydd newydd od yn fwy na dim ond twrist coll....

After binge-watching *Who Do You Think You Are?*, Count Dracula becomes convinced he's got royal blood—thanks to a dubious link between Vlad the Impaler and the Prince of Wales. So, he orders a flat-pack coffin off Temu, books himself an Airbnb, and sets off for the Black Forest... only to land in Blackwood in the South Wales Valleys! At first, the locals think he's just another eccentric in a cape. But when people start mysteriously disappearing and pest control is called to investigate a sudden bat problem, the town begins to wonder if their odd new visitor is more than just a lost tourist...

**Canllaw oed/Age guidance 11+**



# Justin Moorehouse: The Greatest Performance of My Life

Nos Wener 24 Hydref
Friday 24 October
8pm / £17.50 (£7.50 Digyflog / Unwaged)

Paratowch am brofiad bythgofiadwy wrth i Justin ddychwelyd gyda *The Greatest Performance of My Life.*

Ar ôl taith lwyddiannus a hir gyda'i sioe *Stretch and Think* yn 2022 (gallwch wylio hon yn llawn ar YouTube), mae e nôl yn teithio eto gyda'r sioe newydd hon. Mae'r stori'n cwmpasu pynciau sy'n amrywio o bantomeimiau i freuddwydion, sut i ymddwyn mewn ysbytai, mân siarad, sylweddoli mai fersiwn ogleddol o Columbo yw ei fam, a sut y gwnaeth bod yn blentyn gydag ymatebion bach slic a chlyfar ei achub rhag bywyd o gael un grasfa ar ôl y llall. Yn anad dim, dyma'r Justin y mae'n rhaid i chi ddod i'w ddisgwyl. Mae'n ddoniol ac yn ddiddorol, ac efallai bod 'na fymryn bach i gynhesu'r enaid hefyd.

Get ready for an unforgettable experience as Justin returns with *The Greatest Performance of My Life.*

After a successful and extensively extended tour of his 2022 show *Stretch and Think* (which you can catch in full on YouTube), he's back on the road with this new show. The story covers subjects ranging from pantomimes to dreams, how to behave in hospitals, small talk, realising his Mum is a northern version of Columbo, and how being a smart-mouthed kid saved him from a life of continually being beaten up. Above all else, it's the Justin you have to come to expect. It's funny and interesting, and perhaps there's a little bit that warms the soul, too.

ABERTEIFI / CARDIGAN
30.10.25 – 01.11.25

# other voices / lleisiau eraill

## EGLWYS Y SANTES FAIR / ST MARY'S CHURCH

**GRUFF RHYS / WESTSIDE COWBOY / YE VAGABONDS**

...A MWY I'W CHYHOEDDI!
...AND MORE TO BE ANNOUNCED!

## LLWYBR CERDD / MUSIC TRAIL

AFRO CLUSTER / ANNIE-DOG / BABY BRAVE / BASHT / BRUNA GARCIA / CARYS ELERI / CLARE SANDS / CURTISY / DAITHÍ / DANIELLE LEWIS / DAVID MURPHY / DEWIN / DIONNE BENNETT / ELLIE O'NEILL / FACTORY SET / GEORGE HOUSTON / GOD KNOWS / GWEN SION / INTERNET FATIGUE / JOSHUA BURNSIDE / KIDSMOKE / LISA KNAPP AND GERRY DIVER / LULLAHUSH / MAKESHIFT ART BAR / MERYL STREAK / MOLLY PALMER / MORN / MÉABH MCKENNA / NANCY WILLIAMS / PIARAS Ó LORCÁIN / QBANAA / RÓIS / SALAMAY / SEXYTADHG / SIULA / STILL BLUE / SUSTINERE / SÉAMUS & CAOIMHE UÍ FHLATHARTA / SÚIL AMHÁIN / TAFF RAPIDS / TALULAH / TESSIO / TOKOMOLOKO / TRAMP / VRÏ / WRKHOUSE

SOUTH WIND BLOWS
mwldan
TRIONGL

Ariennir yn Rhannol gan Llywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government
Rialtas na hÉireann
Government of Ireland
An Roinn Turasóireachta, Cultúir, Ealaíon, Gaeltachta, Spóirt agus Meán
Department of Tourism, Culture, Arts, Gaeltacht, Sport and Media
An Roinn Gnóthaí Eachtracha
Department of Foreign Affairs
RECONCILIATION FUND
Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Cyngor Sir Ceredigion County Council
BBC CYMRU WALES

# clebran

## TEG EDRYCH TUAG ADREF / IT'S LOVELY TO LOOK TOWARDS HOME



**MAE CLEBRAN YN DYCHWELYD I MWLDAN GYDA PHENWYTHNOS O DRAFODAETHAU A PHERFFORMIADAU CYFOETHOG. BYDD LLEISIAU O BOB RHAN O IWERDDON A CHYMRU YN ARCHWILIO THEMÂU O HUNANIAETH, CYNALIADWYEDD A PHERTHYN, GYDA MYNEDIAD WEDI'I GYNNWYS GYDA BAND ARDDWRN LLEISIAU ERAILL** (Y CYNTAF I'R FELIN).

**MAE CLEBRAN AR Y LLWYBR HEFYD YN DYCHWELYD, GAN GYNNAL SGYRSIAU AGOS ATOCH GYDA PHERFFORMWYR YR ŴYL YNG NGHAPEL A FESTRI BETHANIA.**

**CLEBRAN RETURNS TO MWLDAN WITH A WEEKEND OF ENRICHING DISCUSSIONS AND PERFORMANCES. VOICES FROM ACROSS IRELAND AND WALES WILL EXPLORE THEMES OF IDENTITY, SUSTAINABILITY AND BELONGING, WITH ACCESS INCLUDED IN AN OTHER VOICES WRISTBAND** (FIRST COME, FIRST SERVED).

**CLEBRAN ON THE TRAIL ALSO RETURNS, HOSTING INTIMATE CONVERSATIONS WITH FESTIVAL PERFORMERS IN THE BETHANIA CHAPEL AND VESTRY.**




**LAWR LWYTHWCH EIN AP AR GYFER YR ŴYL: OTHER VOICES LIVE**
AR GAEL NAWR AR YR APP STORE/GOOGLE PLAY

**DOWNLOAD OUR FESTIVAL APP: OTHER VOICES LIVE**
NOW AVAILABLE ON THE APP STORE/GOOGLE PLAY



Llun / Image: Tim Wickenden

Cynhyrchiad y Mwldan / A Mwldan Production

# Synergedd: Alaw | VRï | Hannah James

Nos Fawrth 11 Tachwedd / Tuesday 11 November
7.30pm / £17 (£15)

Daw chwe dawn gerddorol aruthrol o Gymru a Lloegr ynghyd ar gyfer cydweithrediad unigryw ac arbennig a fydd yn mynd â'u hathrylith unigol i'r lefel nesaf gyda'i gilydd.

Mae ALAW, y "Welsh supergroup" (Songlines) yn dathlu cerddoriaeth draddodiadol Cymru gydag angerdd heintus, gan gyfuno cyfansoddi caneuon pwerus gydag alawon gwreiddiol.

Mae VRï wedi ennill yr Albwm Orau yng Ngwobrau Gwerin Cymru ddwywaith, ac yn asio prydferthwch tannau clasurol â hedoniaeth sesiwn dafarn, y cyfan wedi'u rhwymo â harmonïau lleisiol pwerus.

Mae Hannah James yn gerddor, yn gantores ac yn ddawnswraig gyfareddol, arloesol a ddisgrifiwyd fel "a true original" (The Guardian). A hithau'n enwog fel un o'r acordionyddion gorau ar y sîn werin ym Mhrydain, mae ei dawn gerddorol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r traddodiad.

Six extraordinary musical talents from Wales and England join together for a unique and special collaboration that will take their individual genius to the next collective level.

ALAW, a "Welsh supergroup" (*Songlines*) celebrate the traditional music of Wales with an infectious passion, combining powerful songwriting with original tunes.

VRï have twice won Best Album at the Wales Folk Awards, and combine the beauty of classical strings with the hedonism of a pub session, all bound with powerful vocal harmonies.

Hannah James is a spellbindingly innovative musician, singer and dancer described as "a true original" (*The Guardian*). Renowned as one of the best accordionists on the British folk scene, her musicianship extends far beyond the tradition.

**Mae hon yn Gynhyrchiad Taith Mwldan - gweler mwldan.co.uk/tours am ddyddiadau llawn y daith / This is a Mwldan Touring Production - see mwldan.co.uk/tours for full tour dates.**



Welsh National Theatre

## Welsh National Theatre
## Playing Burton

Nos Lun 17 Tachwedd /
Monday 17 November
7.30pm / £25

Mae Matthew Rhys, enillydd Gwobr Emmy, yn dychwelyd i lwyfan Cymru am y tro cyntaf ers 22 mlynedd yn y ddrama un-dyn clodwiw hon am y seren ryngwladol Richard Burton.

Wedi'i ysgrifennu gan Mark Jenkins, mae *Playing Burton* yn cynnig cip olwg treiddgar ar fywyd yr actor, o'i ddechreuadau tlawd yn Ne Cymru i'w siwrnai fel un o berfformwyr gorau ei genhedlaeth. Gan olrhain ei berthynas gariadus angerddol ag Elizabeth Taylor a'i frwydr gyhoeddus iawn gydag alcoholiaeth, mae'r ddrama yn archwiliad llawn enaid o enwogrwydd, uchelgais a hunaniaeth.

Mae'r perfformiad arbennig hwn gan un o actorion enwocaf Cymru yn cynnig cyfle unigryw i gefnogi tymor cyntaf Welsh National Theatre yn 2026.

Emmy Award-winner Matthew Rhys returns to the Welsh stage for the first time in 22 years in this acclaimed one-man play about international star Richard Burton.

Written by Mark Jenkins, *Playing Burton* offers a penetrating look at the actor's life, from his impoverished South Wales beginnings to his rise as one of the greatest performers of his generation. Charting his passionate love affair with Elizabeth Taylor and his very public struggle with alcoholism, the play is a soulful exploration of fame, ambition, and identity.

This special performance by one of Wales' most renowned actors offers a unique opportunity to support Welsh National Theatre's inaugural season in 2026.



## Mid Wales Opera
# Trouble in Tahiti

Nos Fercher 19 Tachwedd
Wednesday 19 November
7.30pm / £18 (£5 o dan 21 / under 21s)

Mae opera un act Bernstein yn ddadansoddiad cain o'r Freuddwyd Americanaidd wych, trwy lygaid Sam a Dinah yn nhŷ pastel a phriodas ffens polion gwyn yr 1950au. Mae triawd 'scat' jazz yn rhoi sylwebaeth wrth i'r cwpl osgoi realiti eu perthynas. I Sam mae'n golygu ei gyfeillion yn y gampfa a'i waith, ac i Dinah ei therapydd a dihangfa ogoneddus Hollywood – a oes bywyd ar ôl yn eu 'priodas berffaith'?

Wedi'i pherfformio yn nhrefniant siambr Yannotta ar gyfer saith offerynwr, gyda chast o bump dan arweiniad Cyfarwyddwr Cerdd OCC o'r piano, mae'r opera'n llenwi hanner cyntaf y noson, gyda'r ail hanner yn dathlu opera a theatr gerddorol Americanaidd, gyda thema Y Freuddwyd Americanaidd, yn cynnwys yr holl berfformwyr.

Bernstein's one act opera is an exquisite dissection of the great American Dream, through the eyes of Sam and Dinah in their 1950's pastel house and white picket fence marriage. A jazz 'scat' trio provides a running commentary as the couple avoid the realities of their relationship. For Sam it's gym buddies and work, for Dinah trips to her therapist and the glorious technicolour escapism of Hollywood - can their 'dream marriage' survive?

Performed in Yannotta's chamber arrangement for seven instrumentalists, with a cast of five led by MWO's Music Director from the piano, the opera forms the first half of the evening, with the second half cabaret concert The American Dream, celebrating American opera and musical theatre and featuring all the performers.



# Natasha Watts: Beautiful Soul

Nos Iau 20 Tachwedd
Thursday 20 November
7.30pm / £25

Bydd band byw yn ymuno â Natasha ar daith drwy ganeuon syfrdanol gwreiddiol a chyfarwydd, yn y noson wych hon o gerddoriaeth sy'n gynnwys caneuon gan Gladys Knight, Aretha Franklin, Barbara Streisand, Whitney Houston a llawer mwy.

Mae Natasha Watts yn gantores-gyfansoddwraig Brydeinig enwog sy'n adnabyddus am ei llais deinamig a'i hegni llawn enaid. Gyda chefndir wedi'i wreiddio mewn cerddoriaeth soul, jazz, ac R&B, mae Watts wedi swyno cynulleidfaoedd gyda'i phresenoldeb llwyfan pwerus a'i hadrodd straeon dilys.

A journey of stunning original and familiar songs, Natasha will be joined by a live band for this fantastic night of music, including songs by Gladys Knight, Aretha Franklin, Barbara Streisand, Whitney Houston and many more.

Natasha Watts is a celebrated British singer-songwriter known for her dynamic voice and soulful energy. With a background rooted in soul, jazz, and R&B, Watts has captivated audiences with her powerful stage presence and authentic storytelling.

**Hyrwyddir gan / Promoted by Natasha Watts**



## Theatr Bara Caws
# Llanast!
### Nos Wener 21 Tachwedd
### Friday 21 November
7.30pm / £15

2 fam, 2 dad, 2 fab × wisgi, tiwlips a ffôn = llanast!

Mae dau bâr o rieni yn cwrdd i drafod ymddygiad eu plant anystywallt - mae plentyn un ohonynt wedi brifo plentyn y llall mewn parc.
Mae'r cyfarfod yn cychwyn yn o gall, a'r pedwar yn ddigon bonheddig, ond wrth i amser fynd yn ei flaen mae ymddygiad y pedwar yn mynd yn fwyfwy plentynnaidd, a diolch i botel o Benderyn, daw'r cyfarfyddiad i ben mewn anhrefn llwyr!

**Perfformir yn yr iaith Gymraeg**
**Canllaw oed 14+**

2 mothers, 2 fathers, 2 sons × whisky, tulips + a mobile phone = carnage!

What happens when two sets of parents meet up to deal with the unruly behaviour of their sons?
A calm and rational debate between grown-ups about the need to teach kids how to behave properly? Or a hysterical hour of name-calling, tantrums and tears? In this 'comedy of manners, without the manners', the civilized veneer soon slips, and carnage ensues!

**A Welsh language perfomance**
**Age guidance 14+**



# Nerina Pallot
### Nos Fercher 26 Tachwedd
### Wednesday 26 November
7.30pm / £22.50

Mae'r gantores-gyfansoddwraig a enwebwyd am Wobr Mercury a'r Brits, Nerina Pallot, yn dod â'i cherddoriaeth aml-genre a llawn enaid i Mwldan, Aberteifi ym mis Tachwedd hwn fel rhan o'i thaith *All Roads Lead To*.

Gyda gyrfa sy'n rhychwantu dros ddau ddegawd, mae hi wedi rhyddhau cyfres o albymau wedi'u crefftio'n gain. Mae ei cherddoriaeth, sy'n plethu elfennau o bop, gwerin ac indie, wedi swyno cynulleidfaoedd ledled y byd, gyda chaneuon fel *Everybody's Gone to War* a *Sophia* yn amlygu ei dawn i adrodd straeon a chreu alawon cofiadwy. Fel artist hynod annibynnol, mae Pallot yn parhau i wthio ffiniau creadigol, gan greu gwaith llawn emosiwn a chyfoeth sonig sy'n ei chadarnhau fel un o drysorau cerddorol mwyaf tanbrisiedig y DU.

Mercury Prize and Brit Nominated singer-songwriter Nerina Pallot brings her jazz influenced, genre defying and soulfully driven sound to Mwldan, Aberteifi this November as part of her *All Roads Lead To* tour.

With a career spanning over two decades, she has released a string of beautifully crafted albums. Her music, which weaves elements of pop, folk, and indie, has captivated audiences worldwide, with hits like *Everybody's Gone to War* and *Sophia* showcasing her knack for storytelling and melody. A fiercely independent artist, Pallot continues to push creative boundaries, delivering emotionally rich and sonically adventurous work that cements her as one of the UK's most underrated musical gems.

**Hyrwyddir gan / Promoted by: Clwb Ifor Bach**



## Edge Street Live Presents
# Henry Normal - with Special Guest Clare Ferguson-Walker

Nos Sadwrn 29 Tachwedd
Saturday 29 November
7.30pm / £20 (£19)

Mae Henry yn awdur, bardd, cynhyrchydd Teledu a Ffilm, sylfaenydd Gŵyl Farddoniaeth Manceinion (bellach yr ŵyl Lenyddiaeth) a chyd-sylfaenydd Gŵyl Farddoniaeth Nottingham. Ym mis Mehefin 2017, cafodd ei anrhydeddu â BAFTA arbennig am ei wasanaethau i Deledu.
Cyd-ysgrifennodd a golygodd sgript y sioe *Mrs Merton* a enillodd lu o wobrau ynghyd â'r cyfresi dilynol, *Mrs Merton a Malcolm*. Hefyd, ar y cyd, fe greodd ac ysgrifennodd gyfres gyntaf *The Royle Family*.

Bardd, digrifwraig ac artist gwobrwyedig yw Clare Ferguson-Walker. A hithau'n wreiddiol o Orllewin Cymru, dyma hi'n dychwelyd i'w gwlad enedigol! Mae Clare wedi teithio ledled y DU gyda'i math unigryw o farddoniaeth ac wedi cefnogi Dr John Cooper-Clarke ar ei deithiau ers 10 mlynedd.

Henry is a writer, poet, TV & Film producer, founder of the Manchester Poetry Festival (now the Literature festival) and co-founder of the Nottingham Poetry Festival. In June 2017 he was honoured with a special BAFTA for services to Television.
He co-wrote and script edited the multi-award winning *Mrs Merton Show* and the spin off series *Mrs Merton and Malcolm*. He also co-created and co-wrote the first series of *The Royle Family*.

Clare Ferguson-Walker is an award winning poet, comedian and artist. Originally hailing from West Wales, this is a return to her home ground! Clare has toured the whole of the UK with her unique brand of poetry and has supported Dr John Cooper-Clarke on tour for 10 years.




## Lighthouse Theatre Company
# Casablanca

Nos Fawrth 2 Rhagfyr
Tuesday 2 December
7.30pm / £15 (£14)

Lighthouse Theatre CIO & Pontardawe Arts Centre yn cyflwyno… / Lighthouse Theatre CIO and Pontardawe Arts Centre present…

Mae'r byd yn rhyfela, ond mae dyn hunan-wneud yn cysgodi ei hun a chamweddau eraill rhag difrod rhyfel mewn bar ym Moroco lle mae llywodraeth Ffrainc Vichy yn rheoli. Mae ffoaduriaid o bob rhan o Ewrop yn dod i Affrica am daith ac iachawdwriaeth. Pan fydd un ohonyn nhw'n cerdded i mewn i'w far...mae ei fyd i gyd yn cael ei droi wyneb yn wyneb â'r dref...am beth fyddech chi'n aberthu popeth?... Mae cwmni 'Playhouse of the Air' yn dychwelyd i ddarlledu'r stori glasurol hon am gariad yng Ngogledd Affrica, sydd wedi'i rhwygo gan ryfel, o flaen cynulleidfa theatr fyw - ynghyd â cherddoriaeth fyw, profiad cyn y sioe ac artist 'foley' yn creu'r effeithiau sain ar y llwyfan.

The world is at war, but a self-made man shields himself and other misfits from the ravages of war in a bar in Morocco where the Vichy French government hold sway. Refugees from all over Europe come to Africa for passage and salvation. When one of them walks into his bar…his whole world is turned upside town…for what would you sacrifice everything?… The Playhouse of the Air company returns to broadcast this classic tale of love in war-torn North Africa in front of a live theatre audience – complete with live music, a pre-show experience and a foley artist creating the sound effects on stage.




## Ysgol Gymunedol Penparc
# Sioe Nadolig 2025

Dydd Iau 4 Rhagfyr
Thursday 4 December
1.30pm + 6.30pm / £6

Mae'n bleser gennym groesawu plant Ysgol Gymunedol Penparc yn ôl atom unwaith eto gyda'u sioe Nadolig newydd o gerddoriaeth a chân ar gyfer 2025! Dewch i ymuno â nhw ar gyfer y digwyddiad arbennig hwn.

We're delighted to welcome the children of Ysgol Gymunedol Penparc back to us once again with their new Christmas show of music and song for 2025! Come and join them for this special event.

**Hyrwyddir gan / Promoted by Ysgol Gymunedol Penparc**




## Clwb Mwldan
# Sonic Sounds

Nos Wener 5 Rhagfyr
Friday 5 December
8pm - 1am
£8 on the door (£6 in advance)

Gan agosáu at ddiwedd blwyddyn arall o rythmau byd-eang a naws gwych, mae Sonic Sounds yn dod â'u cariad at recordiau eclectig, llawen a llai adnabyddus - ond yr un mor ddawnsiadwy - o bob cwr o'r byd - i lawr dawns Clwb Mwldan unwaith eto. Disgwyliwch Cumbia, Afrobeat, Ffync, Disgo, Salsa, Zouk a mwy.

Yn ymuno â'r preswylwyr Andy Sonics a Tom La Bomba fydd Elishea. Gan groesi amser a gofod trwy gerddoriaeth ddawns ac electronig drydanol, bydd ei set yn siŵr o'ch tywys ar daith y gallwch symud iddi.

**Digwyddiad dros 18 oed yn unig yw hwn.**

Towards the end of another year of global grooves and good vibes - Sonic Sounds brings their love of eclectic, joyful and lesser heard but seriously danceable records from across planet earth to the dance floor of Clwb Mwldan once again. Expect Cumbia, Afrobeat, Funk, Disco, Salsa, Zouk and more

Joining residents Andy Sonics and Tom La Bomba will be Elishea. Traversing time and space through electrifying dance and electronic music, her set will be sure to take you on a journey that you can move to.

**This is an over 18s only event.**




## Ysgol Uwchradd Aberteifi
## Matilda the Musical Jr.

Rhagfyr / December **9, 10, 11**
7pm / £8

Ymunwch â ni am daith anhygoel llawn dewrder, deallusrwydd, ac ychydig bach o hud, wrth i Ysgol Uwchradd Aberteifi gyflwyno Matilda The Musical Jr. Wedi'i seilio ar y llyfr enwog gan Roald Dahl, mae'r fersiwn ddwyieothog cyffrous hwn yn dilyn Matilda – merch fach gyda meddwl miniog, dychymyg byw, ac ysbryd gwrthryfelgar – wrth iddi sefyll dros yr hyn sy'n iawn a chreu ei stori ei hun.
Gyda chaneuon llawn egni, dawnsio deinamig, a chast o berfformwyr ifanc talentog, mae Matilda Jr. yn ddathliad llawn hiwmor a chalon o blentyndod, dewrder, a grym llyfrau. Peidiwch â cholli'r perfformiad ysbrydoledig hwn sy'n profi, weithiau, mai'r person lleiaf all wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Join us for an unforgettable journey of courage, cleverness, and a touch of magic as Cardigan Secondary School proudly presents Matilda the Musical Jr. Inspired by the beloved book by Roald Dahl, this captivating, bilingual production follows the extraordinary Matilda—a girl with a sharp mind, a vivid imagination, and a rebellious spirit—as she dares to take a stand and rewrite her own story. Packed with high-energy songs, dynamic choreography, and a cast of talented young performers, Matilda Jr. is a heartwarming and hilarious celebration of childhood, bravery, and the power of books. Don't miss this inspiring performance that proves sometimes, even the smallest person can make the biggest difference.

**Hyrwyddir gan / Promoted by Ysgol Uwchradd Aberteifi**




## Cardigan Theatre
## Pantomine: Beauty & The Beast

Rhagfyr / December
**21** - 2pm
**22** - 2pm & 7pm
**23, 24** - 2pm
**27, 28** - 2pm
**29** - 2pm & 7pm
£10

Ymunwch â Cardigan Theatre y Nadolig hwn am stori sydd mor hen ag amser. Camwch i fyd hudolus o chwerthin, hud a helynt gyda *Beauty and the Beast*! Y Nadolig hwn, ymunwch â Belle, y Beast, a chast o gymeriadau hoffus am antur hudolus yn llawn gwisgoedd ysblennydd, caneuon cyffrous, a hwyl a sbri y bydd y teulu cyfan yn dwlu arnynt. A fydd Belle yn torri melltith y Beast? A fydd y ddewines yn rhwystro ei chynlluniau? Ac a fydd Gavin byth yn dod o hyd i ferch ei freuddwydion?

Felly dewch i fwynhau ein panto y tymor hwn a pheidiwch â cholli allan - archebwch eich tocynnau nawr a byddwch yn rhan o'r hud!

Join Cardigan Theatre this Christmas for a tale as old as time. Step into an enchanted world of laughter, magic, and mayhem with *Beauty and the Beast*! This Christmas, join Belle, the Beast, and a whole cast of quirky characters for a spellbinding adventure full of dazzling costumes, toe-tapping songs, and hilarious hijinks the whole family will love. Will Belle break the Beast's curse? Will the enchantress foil her plans? And will Gavin ever find the girl of his dreams?

So be our guest this panto season and don't miss out—book your tickets now and be part of the magic!

**Hyrwyddir gan / Promoted by Cardigan Theatre**



Cyd-gynhyrchiad Mwldan / i4Africa
A Mwldan / i4Africa Co-production

# Afel Bocoum: The Return of the Messenger

Nos Fercher 28 Ionawr /
Wednesday 28 January
7.30pm / £20 (£19)

Am dros dair degawd, safodd y cerddor chwedlonol Afel Bocoum ochr yn ochr ag arloeswr mawr Mali, y diweddar Ali Farka Touré, yn y byd cerddoriaeth anialwch, fel gwarcheidwad enaid cerddorol Afon Niger ym Mali. Ar ôl mentoriaeth Touré, lansiodd Bocoum yrfa unigol gyda'i albwm cyntaf ym 1999, *Alkibar* (The Messenger), gan ennill cydnabyddiaeth ryngwladol a ffurfio partneriaeth greadigol gyda Damon Albarn, a gydweithiodd ag ef ar *Mali Music* (2002) a phrosiectau diweddarach. Nawr, fel un o artistiaid mwyaf annwyl y Sahel a llysgennad de facto Maliaidd ar gyfer offerynnau sydd mewn perygl fel y liwt njurkel a'r ffidil njarka, mae'n paratoi albwm newydd, Harber, gyda senglau'n cael eu rhyddhau o fis Hydref 2025, ynghyd â thaith brin 13 dyddiad yn y DU fel triawd ym mis Ionawr 2026. Mae Afel Bocoum yn parhau i fod yn bont rhwng bydoedd. Mae'n cario sain Afon Niger Mali ymlaen fel grym byw sy'n llunio'r dyfodol. Mae'r afon yn cofio. Yn nwylo Bocoum, mae hefyd yn breuddwydio.

For over three decades, legendary musician Afel Bocoum stood alongside Mali's late great desert blues pioneer Ali Farka Touré as a guardian of Mali's Niger River musical soul. After Touré's mentorship, Bocoum launched a solo career with his 1999 debut *Alkibar* (The Messenger), earning international recognition and forging a creative partnership with Damon Albarn, with whom he collaborated on *Mali Music* (2002) and later projects. Now, as one of the Sahel's most beloved artists and a de facto Malian ambassador for endangered instruments like the njurkel lute and njarka fiddle, he prepares a new album, Harber, with singles releasing from October 2025, accompanied by a rare 13-date UK tour as a trio in January 2026. Afel Bocoum remains a bridge between worlds. He carries Mali's Niger River sound forward as a living force shaping tomorrow. The river remembers. In Bocoum's hands, it also dreams.

**Mae hon yn Gynhyrchiad Taith Mwldan - gweler mwldan.co.uk/tours am ddyddiadau llawn y daith / This is a Mwldan Touring Production - see mwldan.co.uk/tours for full tour dates.**



## The Irish House Party

Nos Sul 1 Chwefror
Sunday 1 February
7.30pm / £23

Ar ôl sioe a werthodd allan yma yn y Mwldan ym mis Chwefror 2025, mae The Irish House Party yn dod yn ôl i oleuo ein llwyfan unwaith eto gyda'u sioe gerddoriaeth a dawns Wyddelig llawn hwyl.

Mae'r gerddoriaeth fyw, y dawnsio Gwyddelig a'r tynnu coes yn heintus ac yn treiddio i'r ysbryd mewn eiliadau. Mae'r sioe ei hun yn cynnwys cerddorion a dawnswyr sy'n bencampwyr Iwerddon Gyfan wrth iddynt gyfuno asiad unigryw o ryngweithio â'r gynulleidfa gyda straeon hynod ddiddorol am y gerddoriaeth a'r offerynnau eu hunain. Sefydlwyd y sioe wreiddiol yn Nulyn gan griw o gerddorion oedd eisiau i ymwelwyr â'r ddinas brofi sut beth yw parti tŷ Gwyddelig go iawn. Mae'r cyfan wedi'i gyflwyno mewn ffordd hwyliog a doniol gan arwain at brofiad gwych o fynychu theatr.

After a sell-out show here at Mwldan in February 2025, The Irish House Party are coming back to light up our stage once again with their ultimate feel-good Irish music and dance show.

The live music, Irish dancing and banter is infectious and enters the psyche in seconds. The show itself features All Ireland champion musicians and dancers who combine a unique blend of light hearted audience interaction with fascinating stories about the music and the instruments themselves.
The original show was set up in Dublin by a group of musicians who wanted visitors to the city to experience what a real Irish house party is like. It's all presented in a fun and humorous way resulting in a fabulous theatre going experience.



## Sam Lee

Nos Iau 5 Chwefror
Thursday 5 February
7.30pm /£19 (£18)

Mae Sam Lee yn chwarae rhan unigryw yn y sin gerddoriaeth ym Mhrydain. Ac yntau'n ganwr a enwebwyd ar gyfer Gwobr Mercury, yn drefnydd hynod ddyfeisgar a gwreiddiol, yn ddehongwr caneuon gwerin, yn gadwraethwr angerddol, yn gasglwr caneuon, ac yn greawdwr digwyddiadau byw, mae ei waith wedi herio ein syniadau'n gyson ynghylch beth all cerddoriaeth draddodiadol fod. Mae dull Sam yn chwalu'r ffiniau rhwng yr hen a'r newydd, gan anadlu bywyd ffres i ganeuon oesol a'n gwahodd i ailddarganfod eu pŵer.

Dechreuodd ei daith gyda'r albwm début arloesol *Ground Of Its Own* yn 2012, pan aeth ati i ailwampio hen ganeuon mewn modd dramatig gyda chymysgedd trawiadol o synau traddodiadol a chyfoes. Cyrhaeddodd yr albwm, a wnaed yn bosibl gan wobr fawreddog gan y Sefydliad Celfyddydau, y rhestr fer ar gyfer Gwobr Gerddoriaeth Mercury gan nodi effaith uniongyrchol Sam ar y sin gerddoriaeth.

Sam Lee plays a unique role in the British music scene. A Mercury Prize nominated singer, highly inventive and original arranger, folksong interpreter, passionate conservationist, song collector, and creator of live events, his work has consistently challenged our ideas of what traditional music can be. Sam's approach shatters the boundaries between the old and the new, breathing fresh life into timeless songs and inviting us to rediscover their power.

His journey began with the groundbreaking debut album *Ground Of Its Own* in 2012, when he dramatically reworked old songs with a striking blend of traditional and contemporary sounds. The album, made possible by a prestigious Arts Foundation award, was short-listed for the Mercury Music Prize and marked Sam's immediate impact on the music scene.




## Beatles Complete

Nos Wener 20 Chwefror
Friday 20 February
7.30pm / £22

Mae Beatles Complete yn cyflwyno noson o Beatlemania yn llawn caneuon gwych gan y band mwyaf dylanwadol erioed.

Ar ôl perfformio dros 250 o sioeau erbyn hyn yn y Cavern Club byd-enwog yn Lerpwl, y 'beat combo' hwn o Lerpwl yw'r band Beatles ieuengaf erioed i ennill preswyliad yn y Cavern Club lle maen nhw'n dal i berfformio bob dydd Iau ac ambell i ddydd Sadwrn, gan lenwi'r clwb a chreu awyrgylch Beatles unigryw. Rhwng 18 a 22 oed, y Beatles Complete yw'r peth agosaf y byddwch chi'n ei gael at lawenydd digyfyngiad o weld y Beatles ifanc pan wnaethon nhw oleuo'r byd am y tro cyntaf. Er na allant addo'r holl sgrechian a dagrau o'r 60au, gallant roi llu o ganeuon clasurol i chi a berfformiwyd yn wych gan fand o offerynwyr aml-gyflawn, yn rhychwantu ar draws hanes recordio'r Beatles, o Please Please Me hyd at Let It Be.

Beatles Complete present a night of Beatlemania packed with massive hits from the most influential band of all time.

Having now performed over 250 shows at the world famous Cavern Club in Liverpool, this Liverpool based 'beat combo' are the youngest ever Beatles band to gain a residency at the Cavern Club where they still perform every Thursday and some Saturdays, packing the club out and creating a unique Beatles vibe. Aged between 18 and 22 Beatles Complete are the closest thing you will get to the unbridled joy of seeing the young Beatles when they first lit up the world. Whilst they can't promise all the screaming and tears from the 60's, they can give you a host of classic songs brilliantly performed by a band of accomplished multi-instrumentalists, spanning right across The Beatles' recording history, from Please Please Me right through to Let It Be.

**Hyrwyddir gan / Promoted by Beatles Complete**

mwldan

**Cynhyrchiad y Mwldan / A Mwldan Production**

# Catrin Finch: Notes to Self

## Nos Wener 27 Chwefror
## Friday 27 February
## 7.30pm / £20 (£19)



Llun / Image: Jennie Caldwell

Fydd Catrin Finch yn perfformio *Notes to Self*, gyfres o draciau myfyriol a phersonol newydd y mae hi wedi'u chyfansoddi ar gyfer Katy, hi ei hun yn 13 oed, a'i halbwm cyntaf o gyfansoddiadau unigol mewn degawd.

Gyda llythyrau cysylltiedig yn tanlinellu myfyrdod dwfn ei thaith bersonol, mae *Notes To Self* yn plethu ei phrofiadau, ei hemosiynau a'i myfyrdodau at ei gilydd. Trwy ei cherddoriaeth, mae hi'n archwilio themâu o fregusrwydd, disgwyliad, trawsnewidiad ac anrhagweladwyedd bywyd sy'n cael ei chwarae allan o dan lygad y cyhoedd. Mae pob cyfansoddiad yn tynnu ar ei gorffennol; gyrfa 40 mlynedd fel un o artistiaid mwyaf anturus ac arloesol ei chenhedlaeth. Mae ei gonestrwydd a'i dewrder parhaus yn atseinio, gan wahodd gwrandawyr i gysylltu'n ddwfn â'i stori, wrth iddi droi ei brwydrau a'i llwyddiannau i sain. Nid yn unig y mae *Notes To Self* yn arddangos esblygiad Catrin fel cerddor, ond mae hefyd yn nodi gyrfa nodedig a luniwyd gan ei phrofiadau fel menyw hoyw, goroeswr canser, merch a mam.

Mae *Notes To Self* yn gam i mewn i ddimensiwn creadigol newydd i'r delynores ryfeddol hon, y mae ei gyrfa'n cymryd troeon newydd gyda phob prosiect newydd.

Catrin Finch performs *Notes to Self*, a series of reflective and deeply personal new tracks she has composed for Katy, her 13 year-old-self, and her first album of solo compositions in a decade.

With accompanying letters underscoring the profound stories of her personal journey, *Notes To Self* weaves together Catrin's experiences, emotions, and introspections. Through her music, she explores themes of vulnerability, expectation, transformation, and the unpredictability of a life played out under the public eye. Each composition draws from her past; a 40-year career as one of her generation's most adventurous and pioneering artists. Her enduring honesty and bravery resonate, inviting listeners to connect deeply with her story, as she translates her struggles and triumphs into sound. *Notes To Self* not only showcases Catrin's evolution as a musician, but charts a remarkable career shaped by her experiences as a gay woman, a cancer survivor, a daughter and a mother.

*Notes To Self* is a step into a new creative dimension for this extraordinary harpist, whose career takes new turns with each new project.

**Mae hon yn Gynhyrchiad Taith Mwldan - gweler mwldan.co.uk/tours am ddyddiadau llawn y daith / This is a Mwldan Touring Production - see mwldan.co.uk/tours for full tour dates.**

## Ceri Dupree: Frock with Laughter

Nos Wener 6 Mawrth
Friday 6 March
7.30pm /£18 (£17)



Mae Ceri Dupree yn dod â'i sioe 1 dyn 21 menyw yn ôl i Theatr Mwldan yn dilyn galw mawr, gyda gwisgoedd ysblennydd, rwtîns, jôcs a chaneuon. Cewch weld dynwarediadau gwych o rai o fenywod mwyaf ffantastig y byd. Gyda chymeriadau hen a newydd i gyd yn gwisgo gwisgoedd syfrdanol. Cadwch lygad allan am y Frenhines Camilla, Joan Collins, Barbara Streisand, Jane McDonald, Taylor Swift a llawer mwy.

Noson yn llawn glitz, ysblander a chwerthin.

Ceri Dupree is bringing his 1 man, 21 woman show back to Mwldan by popular demand with fabulous costumes, routines, jokes and songs. Witness great impersonations of some of the world's most fantastic females. With characters old and new all adorned in jaw dropping costumes. Look out for Queen Camilla, Joan Collins, Barbara Streisand, Jane McDonald, Taylor Swift and many more.

An evening full of glitz, glamour and laughter.



## Hannah James + Toby Kuhn
Nos Fawrth 10 Mawrth
Tuesday 10 March
7.30pm /£16 (£15)

Mewn taith drwy sain, gwead, emosiwn a rhythm, mae Hannah a Toby yn llywio llwybrau twf, darganfyddiad, tywyllwch a golau, gan archwilio deialog y sielo, llais, acordion a tharo traed mewn ffyrdd newydd ac annisgwyl. Gan gyfuno'n ddiymdrech, mae'r ddau yn chwarae ac yn dawnsio drwy gyfres o alawon meddylgar, caneuon llawn enaid a darnau gosod llawen lle mae meistrolaeth leisiol Hannah wedi'i hategu gan gyflwyniad anghonfensiynol Toby, gan blethu haenau cymhleth o harmoni a melodi gyda'i gilydd i guriad a swish dawns ergydiol. Yn chwilfrydig bob amser, ac yn mynd ati'n barhaus i archwilio eu cysylltiad â'r bydoedd o'u cwmpas, mae'r ddeuawd hon yn cynnig perfformiad hollol newydd, cain, daearol a phwerus.

In a journey through sound, texture, emotion and rhythm, Hannah and Toby navigate the paths of growth, discovery, darkness and light, exploring the dialog of cello, voice, accordion and foot percussion in new and unexpected ways. Effortlessly blending, the pair play and dance through a series thoughtful tunes, soulful songs and joyful set-pieces in which Hannah's vocal mastery is underpinned by Toby's unorthodox delivery, weaving intricate layers of harmony and melody together to the beat and swish of percussive dance. Ever curious, always exploring their connection to the worlds around them, this duo offers an entirely novel, delicate, grounded and powerful performance.




## Dynamix Performing Arts School
## The Last 15 Years
Dydd Sul 22 Mawrth
Sunday 22 March
11am + 2.30pm /£12 (£9)

Mae Celfyddydau Perfformio Dynamix yn dychwelyd i Mwldan ac yn falch o gyflwyno cipolwg unigryw yn ôl dros y 15 mlynedd diwethaf o berfformiadau. Ers agor yn 2011 maent wedi llwyfannu sioeau cerdd poblogaidd fel *Grease, Oliver, High School Musical, Fame* a llawer mwy. Yma, maent yn cyflwyno rhai o'r darnau mwyaf cofiadwy ar hyd y blynyddoedd, gan gynnwys ensembles anhygoel, unawdau syfrdanol, dawnsio deinamig ac actio anhygoel.

Wedi'i berfformio gan myfyrwyr presennol 3-18 oed, a bydd rhai o'n cyn-fyfyrwyr yn dychwelyd, llawer ohonynt wedi symud ymlaen erbyn hyn i weithio ym maes y celfyddydau perfformio. Mae Ysgol Celfyddydau Perfformio Dynamix wedi datblygu enw da fel un o brif sefydliadau celfyddydau perfformio ieuenctid yng Ngorllewin Cymru.

Returning to Mwldan, Dynamix Performing Arts is proud to present a unique look back at the last 15 years of performances. Since opening in 2011 they have showcased hit musicals such as *Grease, Oliver, High School Musical, Fame* and many more.

Here they present some of the most memorable moments from the years including awesome ensembles, stunning solos, dynamic dances and awesome acting. Performed by their current students ages 3-18 and featuring some of their returning students, many of whom have gone on to work in the performing arts. Dynamix Performing Arts School has developed a reputation as one of the leading youth performing arts institutions in West Wales.

**Hyrwyddir gan / Promoted by Dynamix**



## The Fureys: The Farewell Tour

Nos Fawrth 14 Ebrill
Tuesday 14 April
7.30pm /£27

Yn dilyn 9 o berfformiadau blaenorol, bydd The Fureys yn chwarae eu cyngerdd olaf erioed yma yn y Mwldan fel rhan o'u taith ffarwel.

Mae enwogion cerdd a chân Iwerddon, The Fureys, sy'n adnabyddus am eu caneuon poblogaidd *I Will Love You*, *When You Were Sweet 16*, *The Green Fields of France, The Old Man, Red Rose Café, From Clare to Here, Her Father Didn't Like Me Anyway, Leaving Nancy, Steal Away* ac ati, yn camu i'n llwyfan am y tro olaf.

After 9 previous performances, The Fureys will play their last ever concert here at Mwldan as part of their farewell tour.

Legends of Irish music & song, The Fureys renowned for their hit songs *I Will Love You*, *When You Were Sweet 16*, *The Green Fields of France, The Old Man, Red Rose Café, From Clare to Here, Her Father Didn't Like Me Anyway, Leaving Nancy, Steal Away* etc take to our stage for the final time.



## Hejira: Celebrating Joni Mitchell

Nos Wener 1 Mai
Friday 1 May
7.30pm /£23

Yn 2024, perfformiodd y band 7 darn, Hejira, sioe hudolus i gynulleidfa lawn yma yn y Mwldan. Rydym yn gyffrous i'w croesawu'n ôl ym mis Mai eleni am sioe gyffrous arall sy'n wirioneddol yn dal barddoniaeth, angerdd a harddwch campweithiau Joni Mitchell.

Ers iddynt ffurfio ychydig dros ddwy flynedd yn ôl, mae'r band wedi mynd o nerth i nerth, gyda sioeau'n gwerthu allan, y gynulleidfa ar ei thraed mewn cymeradwyaeth, cyfanswm o dros 150K o ymweliadau â'u sianel YouTube a mwy na 700 o sylwadau brwdfrydig ac adolygiadau gan y gynulleidfa.

Disgwyliwch noson o ganeuon 'gwych' o ôl-gatalog Mitchell, fel *Amelia, Woodstock, A Case Of You* a mwy!

In 2024, the 7-piece band Hejira performed a magical show to a packed out audience here at Mwldan. We're excited to welcome them back this May for another spine-tingling show that truly captures the poetry, passion and beauty of Joni Mitchell's masterpieces.

Since their formation just over two years ago, the band has been a tremendous success, with sold out shows, standing ovations, a total of over 150K views on their YouTube channel and more than 700 enthusiastic comments and audience reviews.

Expect an evening of the great songs from Mitchell's back catalogue, such as *Amelia, Woodstock, A Case Of You* and more.



**NT Live:**
**The Fifth Step** 15 AS LIVE

Gweler tudalen 29 am ragor o wybodaeth | See page 29 for more information

# Darllediadau
# Broadcasts

Darganfyddwch rai o gynyrchiadau theatr, opera, bale a cherddorol gorau'r byd gan gynhyrchwyr mwyaf blaenllaw'r byd. O NT Live i'r Bale a Opera Brenhinol, mae gennym gynnwys gwefreiddiol gan rai o'r enwau mwyaf, yma ar y sgrin yn Aberteifi.

Dyma amserau bras sy'n cynnwys seibiannau (oni nodir y wahannol). Gall tystysgrifiau newid. Edrychwn ar ein gwefan mwldan.co.uk am ddiweddariadau a rhagor o fanylion.

Mae pris yr holl docynnau yn cynnwys TAW ac yn amodol ar ffi archebu o 10% (sydd hefyd yn cynnwys TAW) lle bo'n berthnasol (Mae ffioedd archebu wedi'u cyfyngu i uchafswm o £3 y cart).

Discover some of the worlds finest theatre, opera, ballet and musical productions from the worlds leading companies. From NT Live to Royal Ballet & Opera, we have exhilarating content from some of the biggest names right here on screen in Cardigan.

Running times are approximate and include intervals (unless otherwise stated). Certificates are subject to change. Please check our website mwldan.co.uk for updates and further details.

All ticket prices include VAT and are subject to a 10% booking fee (which also includes VAT) where applicable (Booking fees are limited to £3 maximum per cart).




## Royal Ballet and Opera
# Tosca

ROYAL BALLET & OPERA

Hydref / October **5 -** 2.00
£18 (£17)

Yn Rhufain wedi'i difetha gan ryfel, mae Floria Tosca a Mario Cavaradossi yn gwirioni ar ei gilydd ac yn dwlu ar eu celf. Ond pan mae Cavaradossi yn helpu carcharor sydd wedi dianc, mae'r cariadon yn gwneud gelyn marwol, sef y Barwn Scarpia, Prif Swyddog yr Heddlu. Ar drugaredd chwantau gwyrdroëdig Scarpia, mae Tosca'n cael ei gorfodi i wneud bargen ofnadwy: cysgu gyda'r dyn mae hi'n ei gasáu er mwyn achub y dyn mae hi'n ei garu. A all hi ddod o hyd i ffordd allan?

**Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw.**

In war-torn Rome, Floria Tosca and Mario Cavaradossi live for each other and for their art. But when Cavaradossi helps an escaped prisoner, the lovers make a deadly enemy in the form of Baron Scarpia, Chief of Police. At the mercy of Scarpia's twisted desires, Tosca is forced to make a horrific bargain: sleeping with the man she hates in order to save the man she loves. Can she find a way out?

**This is a recording of a live performance.**



## Liberator Film Productions
# Next To Normal (15)

Hydref / October
**9 -** 7.00, **19 –** 2.00, **22 –** 7.00
£15 (£14)

Archwiliad agos atoch yw *Next to Normal* am deulu a salwch, colled a galar, sy'n cynnwys sgôr roc gyffrous gan y cyfansoddwr Tom Kitt a llyfr a geiriau gan Brian Yorkey. Wrth wraidd y sioe mae Diana, gwraig a mam faestrefol sy'n byw gydag anhwylder deubegynol ac sy'n cael ei phoenydio gan ei gorffennol. Enillodd y sioe gerdd 3 Gwobr Tony® a Gwobr Pulitzer am Ddrama, un o ddim ond deg sioe gerdd i ennill y wobr fawreddog.

**Rhybudd am sbardunau: Mae darluniau o wahanol gyflyrau iechyd meddwl ac anhwylderau y cyfeirir atynt yn y sgript fel 'iselder deubegwn gydag episodau rhithdybiol', pryder a galar cymhleth ar ôl profedigaeth plentyn.**
**Mae'r cynhyrchiad hwn yn cynnwys iaith gref.**

**Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw.**

*Next to Normal* is an intimate exploration of family and illness, loss and grief, featuring a thrilling rock score from composer Tom Kitt and book and lyrics from Brian Yorkey. At its heart is Diana, a suburban wife and mother living with bipolar disorder and haunted by her past. The musical won 3 Tony Awards® and the Pulitzer Prize for Drama, one of only ten musicals to win the prestigious award.

**Trigger warning: There are depictions of various mental health conditions and disorders referred to in the script as 'bipolar depression with delusional episodes', anxiety and complicated grief after a child bereavement.**
**This production includes strong language.**

**This is a recording of a live performance.**




## Met Opera mewn cysylltiad â RBO / Met Opera in association with RBO

# La Sonnambula

Hydref / October **21** - 6.45
£18 (£17)

ROYAL BALLET & OPERA

Yn dilyn perfformiadau penigamp gyda'r Met yn *Roméo et Juliette, La Traviata, a Lucia di Lammermoor*, mae Nadine Sierra yn cyrraedd brig arall yn repertoire y soprano fel Amina, sy'n cyfareddu ei ffordd yn dawel i galonnau cynulleidfaoedd yn stori deimladwy Bellini am gariad a gollwyd ac a ddarganfuwyd. Yn ei gynhyrchiad newydd, mae Rolando Villazón - y tenor sydd wedi cychwyn ar ail yrfa wych fel cyfarwyddwr - yn cadw lleoliad gwreiddiol yr opera yn Alpau'r Swistir ond yn defnyddio ei blot breuddwydiol i archwilio dyffrynnoedd emosiynol a seicolegol y meddwl.

**Bydd y sioe ar 21 Hydref yn cael ei ffrydio'n fyw.**

Following triumphant Met turns in *Roméo et Juliette, La Traviata*, and *Lucia di Lammermoor*, Nadine Sierra summits another peak of the soprano repertoire as Amina, who sleepwalks her way into audiences' hearts in Bellini's poignant tale of love lost and found. In his new production, Rolando Villazón—the tenor who has embarked on a brilliant second career as a director—retains the opera's original setting in the Swiss Alps but uses its somnambulant plot to explore the emotional and psychological valleys of the mind.

**The show on the 21 October will be streamed live.**




## National Theatre Live

# Mrs Warren's Profession

National Theatre Live

Hydref / October
**23** – 7.00, **26** – 3.30
Tachwedd / November
**8** - 3.30, **13** – 7.00, **23** – 3.30
£16 (£15)

Mae Imelda Staunton (*The Crown*), sydd wedi ennill Gwobr Olivier bum gwaith, yn ymuno â'i merch go iawn, Bessie Carter (*Bridgerton*), am y tro cyntaf, gan chwarae mam a merch yng nghlasur moesol tanbaid Bernard Shaw.

Mae Vivie Warren yn fenyw o flaen ei hamer. Mae ei mam, fodd bynnag, yn gynnyrch yr hen drefn batriarchaidd honno. Mae manteisio arni wedi ennill ffortiwn i Mrs. Warren - ond ar ba gost?

**Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw.**

Five-time Olivier Award winner Imelda Staunton (*The Crown*) joins forces with her real-life daughter Bessie Carter (*Bridgerton*) for the very first time, playing mother and daughter in Bernard Shaw's incendiary moral classic.

Vivie Warren is a woman ahead of her time. Her mother, however, is a product of that old patriarchal order. Exploiting it has earned Mrs. Warren a fortune – but at what cost?

**This is a recording of a live performance.**




## Royal Ballet and Opera
# La Fille Mal Gardée

ROYAL BALLET & OPERA

Tachwedd / November

**5** – 7.15, **9** – 2.00

£18 (£17)

Mae Lise, unig ferch y Weddw Simone, mewn cariad â'r ffermwr ifanc Colas, ond mae gan ei mam gynlluniau llawer mwy uchelgeisiol ar ei chyfer. Mae Simone yn gobeithio trefnu priodas iddi ag Alain, mab y perchennog cyfoethog Thomas. Gan fod Lise yn awyddus i briodi Colas yn hytrach nag Alain, mae hi'n cynllwynio ffordd i drechu cynlluniau ei mam. 65 mlynedd ar ôl ei berfformiad cyntaf, mae'r Royal Ballet yn cyflwyno *La Fille Mal Gardée* gan Frederick Ashton. Mae'r portread annwyl hwn o fywyd pentrefol yn cyfuno hiwmor afieithus a choreograffi dyfeisgar gwych yn yr hyn sydd heb os yn llythyr serch gan Ashton at gefn gwlad Lloegr. Mae La Fille mal gardée yn ein cludo i hapusrwydd gwledig gyda sgôr llawen Ferdinand Hérold a dyluniadau lliwgar Osbert Lancaster.

**Bydd y sioe ar 5 Tachwedd yn cael ei ffrydio'n fyw. Mae'r sioe ddilynol ar y 9 Tachwedd yn recordiad.**

Lise, the only daughter of Widow Simone, is in love with the young farmer Colas, but her mother has far more ambitious plans for her. Simone hopes to marry her off to Alain, the son of the wealthy proprietor Thomas. Desperate to marry Colas rather than Alain, Lise contrives to outwit her mother's plans. 65 years after its premiere, The Royal Ballet presents Frederick Ashton's *La Fille Mal Gardée.* This affectionate portrayal of village life combines exuberant good humour and brilliantly inventive choreography in what is undoubtedly Ashton's love letter to the English countryside. La Fille mal gardée whisks us away into pastoral bliss with Ferdinand Hérold's cheerful score and Osbert Lancaster's colourful designs.

**The show on the 5 November will be streamed live. The subsequent show which takes place on 9 November is a recording.**




## Exhibition On Screen
# Caravaggio

EOS EXHIBITION ON SCREEN.

Tachwedd / November

**16, 29** - 2.00

Rhagfyr / December **3** - 7.00

£13 (£12)

Dirgelwch, cynllwyn, prydferthwch, angerdd, llofruddiaeth - dyma daflu goleuni newydd ar Caravaggio yn y bywgraffiad dramatig hwn. A hithau wedi cymryd pum mlynedd i'w chynhyrchu, dyma'r ffilm fwyaf helaeth a wnaed erioed am un o'r artistiaid gorau erioed - Caravaggio. Gan gynnwys campwaith ar ôl campwaith a thystiolaeth uniongyrchol gan yr artist ei hun ar drothwy ei farwolaeth ddirgel, mae'r ffilm newydd hyfryd hon yn datgelu Caravaggio fel erioed o'r blaen. Mae'r gwneuthurwyr ffilmiau gwobrwyedig Phil Grabsky a David Bickerstaff yn ymchwilio i naratifau cudd bywyd Caravaggio, gan osod ynghyd cliwiau wedi'u hymgorffori yn ei gelf anhygoel. Mae'r hunan-ddarluniadau diddorol yn ei ddarnau gwaith - weithiau wedi'u cuddio, weithiau yn amlwg - yn cynnig ffenestr brin i'w seice a'i frwydrau personol. Ymunwch â ni wrth i ni ddatgelu stori un o ffigurau mwyaf disglair, cymhleth a dadleuol hanes.

**Mae hwn yn recordiad.**

Mystery, intrigue, beauty, passion, murder - shine a new light on Caravaggio in this dramatic biography. Five years in production, this is the most extensive film ever made about one of the greatest artists of all time – Caravaggio. Featuring masterpiece after masterpiece and with first-hand testimony from the artist himself on the eve of his mysterious death, this beautiful new film reveals Caravaggio as never before. Multi-award-winning film makers Phil Grabsky and David Bickerstaff delve into the hidden narratives of Caravaggio's life, piecing together clues embedded within his incredible art. The intriguing self-depictions within his works — sometimes disguised, sometimes in plain sight — offer a rare window into his psyche and personal struggles. Join us as we unravel the story of one of history's most brilliant, complex and controversial figures.

**This is a recording.**




## Royal Ballet and Opera
# Cinderella

Tachwedd / November
**25** – 7.15, **30** – 2.00
£18 (£17)

Yn gaeth i'r cartref ac wedi'i gorfodi i weithio gan ei Llyschwiorydd ofnadwy, mae bywyd Cinderella yn undonog ac yn ddiflas. Mae popeth yn newid pan mae hi'n helpu menyw ddirgel... Gydag ychydig bach o hud, caiff ei chludo i fyd newydd arallfydol – byd lle mae tylwyth teg yn dod â rhoddion y tymhorau, lle mae pwmpenni'n troi'n gerbydau, a lle mae gwir gariad yn aros amdani.
Mae'r bale hudolus hwn gan Goreograffydd Sefydlol y Royal Ballet, Frederick Ashton, yn brofiad theatrig i'r teulu cyfan, a bydd yn eich cludo i fyd arallfydol lle mae ysgeintiad o lwch tylwyth teg yn gwireddu breuddwyd.

**Bydd y sioe ar 25 Tachwedd yn cael ei ffrydio'n fyw.
Mae'r sioe ddilynol ar y 30 Tachwedd yn recordiad.**

Stuck at home and put to work by her spoiled Step-Sisters, Cinderella's life is dreary and dull. Everything changes when she helps a mysterious woman out...With a little bit of magic, she is transported into an ethereal new world – one where fairies bring the gifts of the seasons, where pumpkins turn into carriages, and where true love awaits.
This enchanting ballet by The Royal Ballet's Founding Choreographer Frederick Ashton is a theatrical experience for all the family and will transport you into an ethereal world where a sprinkling of fairy dust makes dreams come true.

**The show on the 25 November will be streamed live.
The subsequent show which takes place on 30 November is a recording.**




## National Theatre Live
# The Fifth Step

Tachwedd / November **27** – 7.00
Rhagfyr / December
**11** - 7.30, **18** – 7.00, **30** – 4.00
Ionawr / January **11** – 3.30
£16 (£15)

Yn ymuno â'r enillydd Gwobr Olivier, Jack Lowden (*Slow Horses, Dunkirk*), mae'r enillydd Emmy a BAFTA, Martin Freeman (*The Hobbit, The Responder*), yn y ddrama newydd hynod ddoniol gan David Ireland, sydd wedi denu clod gan y beirniaid.
Ar ôl blynyddoedd yn rhaglen 12 cam Alcoholics Anonymous, mae James yn dod yn noddwr i Luka, sydd newydd ddechrau arni. Mae'r ddau yn creu cysylltiadau dros goffi du, yn rhannu straeon ac yn meithrin cyfeillgarwch bregus yn seiliedig ar eu profiadau cyffredin. Ond wrth i Luka agosáu at gam pump – y cam cyffesu – mae gwirioneddau peryglus yn dod i'r amlwg, gan fygwth yr ymddiriedaeth y mae adferiad y ddau yn dibynnu arni.

**Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw.**

Olivier Award-winner Jack Lowden (*Slow Horses, Dunkirk*) is joined by Emmy and BAFTA-winner Martin Freeman (*The Hobbit, The Responder*) in the critically acclaimed and subversively funny new play by David Ireland.
After years in the 12-step programme of Alcoholics Anonymous, James becomes a sponsor to newcomer Luka. The pair bond over black coffee, trade stories and build a fragile friendship out of their shared experiences. But as Luka approaches step five – the moment of confession – dangerous truths emerge, threatening the trust on which both of their recoveries depend.

**This is a recording of a live performance.**




## André Rieu 2025 Christmas Concert
# Merry Christmas
Rhagfyr / December
**6, 7, 13, 31 -** 2.00
£18 (£17)

Y Nadolig hwn, mae'r hud yn dechrau ar y sgrin fawr. Ymunwch ag André Rieu ar gyfer ei Gyngerdd Nadolig 2025 – *Merry Christmas* a phrofwch garolau llawen, waltsiau prydferth, a digon o syrpreisys – dyma'r digwyddiad sinema Nadoligaidd gorau oll!
Gyda'i Gerddorfa Johann Strauss wych, a gwesteion arbennig gan gynnwys y gantores syfrdanol Emma Kok a dros 400 o offerynwyr pres yn cyfleu sain fawreddog y Nadolig, mae cyngerdd André yn llawn cynhesrwydd, chwerthin, a hwyl yr ŵyl.
Y Nadolig yw hoff amser o'r flwyddyn André - ac mae'n methu aros i rannu'r cyngerdd ysblennydd hwn gyda chi.

**Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw.**

This holiday season, the magic begins on the big screen. Join André Rieu for his 2025 Christmas Concert – *Merry Christmas* and experience joyful carols, beautiful waltzes, and plenty of surprises – it's the ultimate Christmas cinema event!
With his fabulous Johann Strauss Orchestra, and special guests including the sensational Emma Kok and over 400 brass players bringing the majestic sound of Christmas, André's concert is bursting with warmth, laughter, and holiday cheer.
Christmas is André's favourite time of year - and he can't wait to share this spectacular concert with you.

**This is a recording of a live performance.**




## Royal Ballet and Opera
# The Nutcracker
Rhagfyr / December
**10 -** 7.15, **14 -** 2.00
£18 (£17)

Mae angen i'r dewin Herr Drosselmeyer achub ei nai. Mae Hans-Peter wedi cael ei droi' n Nutcracker; yr unig ffordd i'w achub yw i'r Nutcracker drechu'r Mouse King a dod o hyd i ferch i'w garu ac i ofalu amdano. Daw fflach o obaith pan mae Drosselmeyer yn cwrdd â Clara ifanc mewn parti Nadolig. Gyda rhywfaint o hud, mae parti Nadoligaidd clyd yn troi'n antur ryfeddol.

**Bydd y sioe ar 10 Rhagfyr yn cael ei ffrydio'n fyw. Mae'r sioe ddilynol ar y 14 Rhagfyr yn recordiad.**

The magician Herr Drosselmeyer needs to save his nephew. Hans-Peter has been transformed into a Nutcracker; the only way to save him is for the Nutcracker to defeat the Mouse King and find a girl to love and care for him. A flicker of hope comes in the form of the young Clara, whom Drosselmeyer meets at a Christmas party. With some magic, a cosy Christmas gathering turns into a marvellous adventure.

**The show on the 10 December will be streamed live. The subsequent show which takes place on 14 December is a recording.**




## Royal Ballet and Opera
# La Traviata

Ionawr / January
**14** – 6.45, **18** – 2.00
£18 (£17)

Yn un o'i phartïon moethus, caiff y butain llys enwog o Baris, Violetta, ei chyflwyno i Alfredo Germont. Mae'r ddau yn syrthio dros eu pen a'u clustiau mewn cariad, ac er ei bod yn betrusgar ynglŷn â gadael ei bywyd moethus a'i rhyddid ar ôl, mae Violetta yn dilyn ei chalon. Ond mae hapusrwydd y pâr ifanc yn fyrhoedlog, wrth i realiti llym bywyd ddod i'w rhan yn fuan. Mae *La Traviata*, sydd yr un mor agos atoch ag y mae'n foethus, yn cynnwys rhai o alawon enwocaf opera, ac mae'n arddangosiad arbennig o dalent y soprano arweiniol Ermonela Jaho. Ym myd o fawredd hudolus y cyfarwyddwr Richard Eyre, mae'r harddwch tyner a dinistriol yng nghanol opera Verdi yn disgleirio'n llachar.

**Bydd y sioe ar 14 Ionawr yn cael ei ffrydio'n fyw.**
**Mae'r sioe ddilynol ar y 18 Ionawr yn recordiad.**

At one of her lavish parties, celebrated Parisan courtesan Violetta is introduced to Alfredo Germont. The two fall madly in love, and though hesitant to leave behind her life of luxury and freedom, Violetta follows her heart. But the young couple's happiness is short-lived, as the harsh realities of life soon come knocking. As intimate as it is sumptuous, *La Traviata* features some of opera's most famous melodies, and is a star vehicle for its leading soprano role sung by Ermonela Jaho. In director Richard Eyre's world of seductive grandeur, the tender and devastating beauty at the centre of Verdi's opera shines bright.

**The show on the 14 January will be streamed live.**
**The subsequent show which takes place on 18 January is a recording.**




## National Theatre Live
# Hamlet

Ionawr / January
**22** – 7.00, **25** – 2.30
Chwefror / February
**12** – 7.00, **14** – 3.30
£16 (£15)

Yr enillydd Gwobr Olivier, Hiran Abeysekera (Life of Pi), sy'n chwarae rhan Hamlet yn y fersiwn eofn, gyfoes hon o drasiedi enwog Shakespeare.
Mae'r Tywysog ifanc Hamlet, wedi'i ddal rhwng dyletswydd ac amheuaeth, ac wedi'i amgylchynu gan rym a braint, yn meiddio gofyn y cwestiwn eithaf – rydych chi'n gwybod pa un.
Dirprwy Gyfarwyddwr Artistig y National Theatre, Robert Hastie (*Standing at the Sky's Edge, Operation Mincemeat*), sy'n cyfarwyddo'r ailwampiad slic, steilus a doniol tywyll hwn.

Gan William Shakespeare, cyfarwyddwyd gan Robert Hastie.

**Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw.**

Olivier Award-winner Hiran Abeysekera (*Life of Pi*) is Hamlet in this fearless, contemporary take on Shakespeare's famous tragedy.
Trapped between duty and doubt, surrounded by power and privilege, young Prince Hamlet dares to ask the ultimate question – you know the one.
National Theatre Deputy Artistic Director, Robert Hastie (*Standing at the Sky's Edge, Operation Mincemeat*) directs this sharp, stylish and darkly funny reimagining.

By William Shakespeare, directed by Robert Hastie.

**This is a recording of a live performance.**




## Royal Ballet and Opera

# Woolf Works

12A AS LIVE

Chwefror / February 15 - 2.00

£18 (£17)

Heriodd Virginia Woolf gonfensiynau llenyddol i bortreadu bydoedd mewnol cyfoethog – ei realiti dwys, syfrdanol ac ingol. Mae'r Coreograffydd Preswyl Wayne McGregor yn arwain tîm artistig disglair i ddeffro arddull ysgrifennu llif ymwybyddiaeth nodweddiadol Woolf yn y gwaith aruthrol hwn sy'n gwrthod strwythurau naratif traddodiadol. Mae Woolf Works yn gollage o themâu o Mrs Dalloway, Orlando, The Waves ac ysgrifau eraill gan Woolf. Wedi'i greu yn 2015 ar gyfer y Royal Ballet, mae'r tri darn gwaith bale hwn, sydd wedi ennill gwobr Olivier, yn cipio hanfod ysbryd artistig unigryw Woolf.

**Bydd y sioe ar 15 Chwefror yn recordiad.**

Virginia Woolf defied literary conventions to depict rich inner worlds – her heightened, startling and poignant reality. Resident Choreographer Wayne McGregor leads a luminous artistic team to evoke Woolf's signature stream of consciousness writing style in this immense work that rejects traditional narrative structures. Woolf Works is a collage of themes from Mrs Dalloway, Orlando, The Waves and Woolf's other writings. Created in 2015 for The Royal Ballet, this Olivier-award winning ballet triptych captures the heart of Woolf's uniquely artistic spirit.

**The show on the 15 February is a recording.**

## Royal Ballet and Opera

# Giselle PG AS LIVE

Mawrth / March **3** – 7.15, **8** – 2.00
£18 (£17)

Mae'r ferch werinol Giselle wedi syrthio mewn cariad ag Albrecht. Pan mae hi'n darganfod mai gŵr bonheddig a addawyd i rywun arall ydyw mewn gwirionedd, mae hi'n lladd ei hun mewn anobaith. Mae ei hysbryd yn ymuno â'r Wilis: ysbrydion dialgar menywod sy'n benderfynol o ladd unrhyw ddyn maen nhw'n cwrdd. Ac yntau wedi'i boenydio gan euogrwydd, mae Albrecht yn ymweld â bedd Giselle, lle mae'n rhaid iddo wynebu'r Wilis - ac ysbryd Giselle. Mae cynhyrchiad 1985 Peter Wright o'r bale Rhamantaidd nodweddiadol hwn yn glasur yn repertoire y Royal Ballet. Wedi'i osod i sgôr atgofus Adolphe Adam a gyda dyluniadau llawn naws gan John Macfarlane, mae *Giselle* yn dwyn i gof y byd daearol a'r byd arallfydol mewn stori o gariad, brad ac achubiaeth.

**Bydd y sioe ar 3 Mawrth yn cael ei ffrydio'n fyw.**
**Mae'r sioe ddilynol ar y 8 Mawrth yn recordiad.**

The peasant girl Giselle has fallen in love with Albrecht. When she discovers that he is actually a nobleman promised to another, she kills herself in despair. Her spirit joins the Wilis: the vengeful ghosts of women hell-bent on killing any man who crosses their path in a dance to the death. Wracked with guilt, Albrecht visits Giselle's grave, where he must face the Wilis – and Giselle's ghost. Peter Wright's 1985 production of this quintessential Romantic ballet is a classic of The Royal Ballet repertory. Set to Adolphe Adam's evocative score and with atmospheric designs by John Macfarlane, *Giselle* conjures up the earthly and otherworldly realms in a tale of love, betrayal and redemption.

**The show on the 3 March will be streamed live.**
**The subsequent show which takes place on 8 March is a recording.**






## Exhibition On Screen
# Turner and Constable

Mawrth / March
**11** - 7.00, **15** – 2.00, **24** – 7.00
Ebrill / April **19** - 2.00
£13 (£12)

---

Roedd dau o beintwyr blaenaf Prydain, J.M.W. Turner a John Constable, hefyd yn gystadleuwyr mawr. Wedi'u geni o fewn blwyddyn i'w gilydd, defnyddiodd y ddau baentio tirluniau i adlewyrchu'r byd newidiol o'u cwmpas. Fe wnaeth machlud haul fflamllyd Turner a golygfeydd godidog o'i deithiau a darluniau delfrydol Constable o leoedd annwyl o'i gartref danio brwdfrydedd mawr yn y cyhoedd ar y pryd. Cymharodd beirniaid eu harddulliau gwahanol iawn fel gwrthdaro 'tân a dŵr'. Gan nodi 250 mlynedd ers eu geni, mae'r rhaglen ddogfen newydd hon yn archwilio bywydau a gwaddol cydblethedig Turner a Constable ochr yn ochr â'r arddangosfa arloesol yn y Tate.

**Mae hwn yn recordiad.**

Two of Britain's greatest painters, J.M.W. Turner and John Constable were also the greatest of rivals. Born within a year of each other, both used landscape painting to reflect the changing world around them. Turner's blazing sunsets and sublime scenes from his travels and Constable's idealised depictions of beloved places from home whipped the public of the time into a frenzy of enthusiasm. Critics compared their starkly different styles to a clash of 'fire and water'. Marking 250 years since their births, this unmissable new documentary explores Turner and Constable's intertwined lives and legacies alongside the groundbreaking Tate exhibition.

**This is a recording.**




## Royal Ballet and Opera
# Siegfried

Mawrth / March **31** – 5.15
£18 (£17)

---

Mae eiliadau o harddwch trosgynnol a buddugoliaeth arwrol yn disgleirio yn nhrydedd bennod y Ring Cycle gan Wagner, ac mae ysbrydoliaeth Barrie Kosky yn dod â'r cyfan yn fyw yn dilyn ei gynyrchiadau ysblennydd Das Rheingold (2023) a Die Walküre (2025). Mae Andreas Schager, yn ei ymddangosiad cyntaf hirddisgwyliedig gyda'r Royal Opera, yn serennu fel arwr teitl yr opera Siegfried, ochr yn ochr â Christopher Maltman fel y Wanderer tal, Peter Hoare fel y Mime bradwrus ac Elisabet Strid fel y Brünnhilde ddisglair. Mae Antonio Pappano yn arwain, gan dynnu allan y tensiynau distaw a chyfriniaeth arallfydol sgôr ddeinamig Wagner.

**Bydd y sioe ar 31 Mawth yn cael ei ffrydio'n fyw.**
**Hyd y perfformiad (tua): 330 munud TBC**

Moments of transcendent beauty and heroic triumph sparkle in the third chapter of Wagner's Ring cycle, brought to life under Barrie Kosky's inspired eye following his spectacular *Das Rheingold* (2023) and *Die Walküre* (2025). Andreas Schager, in his much-anticipated debut with The Royal Opera, stars as Siegfried's titular hero, alongside Christopher Maltman's towering Wanderer, Peter Hoare's treacherous Mime and Elisabet Strid's radiant Brünnhilde. Antonio Pappano conducts, drawing out the unspoken tensions and ethereal mysticism of Wagner's dynamic score.

**The show on the 31 March will be streamed live.**
**Runtime (approx): 330 minutes TBC**




## Royal Ballet and Opera
# The Magic Flute

Ebrill / April **21** – 6.45,
**26** – 2.00
£18 (£17)

ROYAL BALLET & OPERA

Mae'r Dywysoges Pamina wedi cael ei chipio. Mae ei mam, y Queen of the Night, yn rhoi'r dasg o achub ei merch i'r Tywysog ifanc Tamino. Ond pan mae Tamino a'i bartner cyfeillgar, Papageno, yn dechrau ar eu hantur, maen nhw'n dysgu'n gyflym, wrth edrych am gariad, nad yw unrhyw beth fel y mae'n ymddangos mewn gwirionedd. Gyda ffliwt hud yn eu tywys, maen nhw'n dod ar draws angenfilod, dihirod, a brawdoliaeth ddirgel o ddynion - ond mae cymorth, mae'n debyg, yn dod pan ydych chi'n ei ddisgwyl leiaf.

Mae opera ffantastig Mozart yn disgleirio yng nghynhyrchiad hudolus David McVicar.

**Bydd y sioe ar 21 Ebrill yn cael ei ffrydio'n fyw.**
**Mae'r sioe ddilynol ar y 26 Ebrill yn recordiad.**

Princess Pamina has been captured. Her mother, the Queen of the Night, tasks the young Prince Tamino with her daughter's rescue. But when Tamino and his friendly sidekick, Papageno, embark on their adventure, they soon learn that when it comes to the quest for love, nothing is as it really seems. Guided by a magic flute, they encounter monsters, villains, and a mysterious brotherhood of men – but help, it turns out, comes when you least expect it.
Mozart's fantastical opera glitters in David McVicar's enchanting production.

**The show on the 21 April will be streamed live.**
**The subsequent show which takes place on 26 April is a recording.**




## Met Opera mewn cysylltiad a RBO / Met Opera in association with RBO
# Eugene Onegin

Mai / May **5** – 6.00
£18 (£17)

ROYAL BALLET & OPERA

Yn dilyn ei début gyda'r cwmni yn 2024 yn Madama Butterfly gan Puccini, mae'r soprano Asmik Grigorian yn dychwelyd i'r Met fel Tatiana, yr arwres ifanc dros ei phen a'i chlustiau mewn cariad, yn yr addasiad operatig brwd hwn o Pushkin. Unwaith eto, mae'r bariton Igor Golovatenko yn cyflwyno ei bortread o'r Onegin bonheddig, sy'n sylweddoli'n rhy hwyr ei fod yn hoff ohoni. Mae cynhyrchiad atgofus y Met, dan gyfarwyddyd yr enillydd Gwobr Tony, Deborah Warner, "offers a beautifully detailed reading of … Tchaikovsky's lyrical romance" (The Telegraph).

**Bydd y sioe ar 5 Mai yn cael ei ffrydio'n fyw.**

Following her acclaimed 2024 company debut in Puccini's Madama Butterfly, soprano Asmik Grigorian returns to the Met as Tatiana, the lovestruck young heroine in this ardent operatic adaptation of Pushkin. Baritone Igor Golovatenko reprises his portrayal of the urbane Onegin, who realizes his affection for her all too late. The Met's evocative production, directed by Tony Award–winner Deborah Warner, "offers a beautifully detailed reading of … Tchaikovsky's lyrical romance" (The Telegraph).

**The show on the 5 May will be streamed live.**



## Avatar: Fire and Ash

12A TBC

James Cameron | USA | 2025 | tbc’

Gweler tudalen 50 am ragor o wybodaeth | See page 50 for more information

# Sinema
# Cinema

Bydd ffilmiau'n DECHRAU ar yr amser a hysbysebir.
Films START at the advertised time.

Croeso i'n tymor hydref o sinema. O oreuon pryfoclyd indi i ffilmiau poblogaidd blocbyster, mae ein rhaglen ffilm wedi'i churadu'n ofalus ac yn addo i ysbrydoli a diddanu.

Gall amserlenni sinema newid ar fyr rybudd. Argymhellwn eich bod yn archebu eich tocynnau ymlaen llaw pryd bynnag bo'n bosibl – yna gallwn gysylltu â chi os bydd unrhyw amgylchiadau annisgwyl yn codi.

**Mae pris yr holl docynnau isod yn cynnwys TAW ac yn amodol ar ffi archebu o 10% (sydd hefyd yn cynnwys TAW) lle bo'n berthnasol (mae ffioedd archebu wedi'u cyfyngu i uchafswm o £3 y cart).**

Ewch i'n gwefan am ddiwedddariadau ar isdeotlau, disgrifiadu sain, tystystgrifiau, amseroedd a gwybodaeth am ffotosensitifrywd.

Welcome to our autumn season of cinema. From thought-provoking indie gems to captivating blockbusters, our carefully curated film programme promises to inspire and entertain.

Cinema schedules can be subject to change at short notice. We recommend pre-booking your tickets wherever possible; we can then contact you in the event of any changes.

**All ticket prices below include VAT and are subject to a 10% booking fee (which also includes VAT) where applicable (booking fees are limited to £3 maximum per cart).**

Vist our website for details of certificates, audio description, relaxed and subtitled screenings .

## Prisiau'r sinema | Cinema prices:

£8.40 **Oedolion | Adults**

£7.70 **Gostyngiadau**
(Pobl Hyn 60+ / Pobl Anabl / Ceiswyr Gwaith / Myfyrwir Llawn Amser 15+)
**Consessions**
(Senior 60+ / Full Time Student 15+ / Disabled / Job seekers / Income support)

£5.90 **Ar gyfer plant oed 14 ac yn iau** a **Aelodau CFfTM llawn a Ticketsavers**
**Children aged 14 and under** and **TMFS Full Members and Ticketsavers**

**ST** **Isdeitlau / Subtitles**

**R** **Ddangosiad Hamddenol / Relaxed Screening**

# Cyfle arall i weld Another chance to see





### Downton Abbey: The Grand Finale PG
**Hydref | October 3** – 6.45, **4** – 1.45, 7.45, **5** – 1.45, 6.45, **9** – 2.00, **11** – 1.45, **12** – 12.30, **18** – 1.15, **25** – 4.15,
**Tachwedd | November**
**8** – 12.30, **22, 23** – 4.00

### The Bad Guys 2 PG
**Hydref | October 4, 5** – 1.30, **11** – 1.15, **12** – 1.00, **25** – 1.15, **26** – 12.45

### The Salt Path 12A
**Hydref | October 4, 5** – 4.15

### The Roses 15
**Hydref | October 4, 5** – 4.45, **11** – 4.00

### A Big Bold Beautiful Journey 15
**Hydref | October 4** – 5.00

## Pecyn Parti Plant

£8.50* y plentyn (o leiaf 10 plentyn) Yn cynnwys tocyn sinema, popgorn bach + carton o ddiod yr un. Hefyd, defnydd o fan cyfarfod, gydag addurniadau, ar gyfer cacen cyn/ar ôl y ffilm.

*Yn amodol ar ffioedd archebu, gweler tudalen 57 am fanylio.

## Kids Party Package

£8.50* per child (minimum of 10 children) Includes cinema ticket, small popcorn + carton of drink each. Also use of a meeting space, with decorations, for a cake before/ after the film.

*Subject to booking fees, see page 57 for details.

**Cysylltwch a'r Swyddfa Docynnau / Contact the box office:**
boxoffice@mwldan.co.uk / 01239 621200



## Christy 15

Brendan Canty | Ireland | UK | 2025 | 95’

**Hydref | October 3 -5** – 7.15, **7** – 7.00 ST, **8** – 7.00, **9** – 7.15

Mae Christy, sy’n ddwy ar bymtheg oed, ar groesffordd. Ac yntau wedi’i daflu allan o’i gartref maeth maestrefol, mae e wedi symud i mewn dros dro gyda’i frawd hŷn Shane, sydd wedi ymddieithrio oddi wrtho, yng nghanol dinas Cork. Ond mae Shane eisiau rhywbeth gwell i Christy. Ar ôl cymaint o flynyddoedd ar wahân, mae’r brodyr yn cael eu gorfodi i ymgymodi â’u gorffennol cythryblus, wrth benderfynu sut olwg sydd ar y dyfodol. Weithiau, er mwyn symud ymlaen, mae’n rhaid i chi fynd yn ôl.

Seventeen-year-old Christy is at a crossroads. Thrown out of his suburban foster home, he has moved in temporarily with his estranged older brother, Shane, in Cork’s inner city. But Shane wants something better for Christy. After so many years apart, the brothers are forced to reconcile their turbulent past, whilst deciding what the future looks like. Sometimes, to move forward, you have to go back.



## Honey Don’t! 15

Ethan Coen | UK | USA | 2025 | 89’

**Hydref | October 3 -5** -7.30, **7, 8** – 7.45, **9** – 7.30

Dirgelwch comedi tywyll gan y cyfarwyddwr Ethan Coen sy’n ymchwilio i gyfrinachau cythryblus tref fechan. Dewch i gwrdd â Honey O’Donahue, ditectif preifat nad yw ei gallu craff a’i deallusrwydd brwd yn cael eu cymryd o ddifrif yn ddigonol oherwydd ei harddwch trawiadol. Mae ganddi ddigon o ymatebion slic yn barod i roi’r dynion o’i chwmpas yn eu lle, a bydd angen pob un ohonyn nhw arni wrth iddi lywio cyfres o farwolaethau rhyfedd sy’n gysylltiedig ag eglwys leol ddirgel. Gyda Margaret Qualley, Aubrey Plaza, Chris Evans, a Charlie Day.

From director Ethan Coen comes a darkly comedic mystery that delves into the unsettling secrets of a small town. Meet Honey O’Donahue, a private investigator whose sharp wit and keen intellect are often underestimated due to her striking beauty. She’s got a steady supply of withered one-liners ready to put the men around her in their place, and she’ll need every one of them as she navigates a series of bizarre deaths linked to a mysterious local church. Starring Margaret Qualley, Aubrey Plaza, Chris Evans, and Charlie Day.




## One Battle After Another 15 TBC

Paul Thomas Anderson | 2025 | USA | 161’

**Hydref | October 10** -7.15, **11** – 7.00, **12** – 3.30, **14** – 7.15 ST, **15, 16** – 7.15

Ac yntau’n cael ei ddisgrifio’n aml fel un o gyfarwyddwyr blaenllaw ei genhedlaeth, mae Paul Thomas Anderson yn dychwelyd gydag *One Battle After Another*, ffilm gomedi gyffro dywyll sy’n dilyn ymlaen o’i ffilm fwy hiraethus, dod i oed, sef *Licorice Pizza* yn 2021. Pan mae eu gelyn atgas yn ailymddangos ar ôl 16 o flynyddoedd, mae grŵp o gyn-chwyldroadwyr yn ailuno i achub merch un o’u criw eu hunain. Leonardo DiCaprio a Teyana Taylor yw Bonnie a Clyde y ffilm, a disgwylir setiau mawr ysblennydd a chelfydd, gyrru cyflym a llwyth o styntiau.

Often described as one of the most preeminent directors of his generation, Paul Thomas Anderson returns with *One Battle After Another*, a black comedy action film which follows on from his more nostalgic 2021 coming-of-age picture, *Licorice Pizza*. When their evil enemy resurfaces after 16 years, a group of ex-revolutionaries reunite to rescue one of their own’s daughter. Leonardo DiCaprio and Teyana Taylor are the Bonnie and Clyde of the film, and there are expectations of big elaborate action set-pieces, car chases and stunts galore.



## TRON: Ares 12A TBC

Joachim Rønning | USA | 2025 | tbc’

**Hydref | October 10** -7.30, **11** – 1.30, 4.30, 7.30, **12** – 1.15, 4.15, 7.30, **14 -16** – 7.30, **17** – 8.00, **18** – 1.00 R, 4.00, 7.00, **19** – 1.00, 4.00, 7.00 ST, **21** – 7.00, **22, 23** – 6.45
**Tachwedd | November**
**8, 9, 15, 16** – 4.15

Llwyddodd y ffilm wreiddiol o 1982, TRON, chwyldroi sinema ffuglen wyddonol gyda’i graffeg gyfrifiadurol arloesol. Daeth â “the Grid”, byd digidol sydd wedi’i leoli’n gyfan gwbl mewn system gyfrifiadurol, yn fyw. Fe ddilynodd y ffilm y datblygwr gemau fideo ar ei antur epig ar ôl iddo gael ei sugno i’r byd rhithwir hwn. Daeth TRON yn glasur cwlt yn gyflym, gan arwain at y ffilm ddilynol yn 2010, TRON: Legacy. Nawr, mae’r fasnachfraint yn parhau gyda’i thrydydd rhandaliad, TRON: Ares, sy’n cyflwyno rhaglen o’r byd digidol i’n byd ni, gan nodi’r tro cyntaf i ddynoliaeth â bodau AI gwrdd.

The original 1982 TRON revolutionized sci-fi cinema with its groundbreaking computer graphics, bringing “the Grid”, a digital world entirely within a computer system, to life. The film followed a video game developer on his epic adventure after being sucked into this virtual realm. TRON quickly became a cult classic, leading to the 2010 follow-up, TRON: Legacy. Now, the franchise continues with its third instalment, TRON: Ares which introduces a programme sent from the digital world into ours, marking humanity’s first encounter with AI beings.



## I Swear 15 TBC

Kirk Jones | UK | 2025 | 120'

**Hydref | October 10** -7.45,
**11** – 4.45, 7.45, **12** – 3.45, 7.15,
**14, 15** – 7.45, **16** – 2.00, 7.45 ST,
**18** - 4.15, 7.30, **19** – 7.15,
**21 – 24** – 8.15, **25 – 30** – 7.30
**Tachwedd | November**
**7, 8** – 7.00, **14** – 7.00, **15, 16** – 4.45

Rwy'n blincio. Rwy'n twitsio. Rwy'n neidio. Rwy'n clicio. Rwy'n chwibanu. Rwy'n gweiddi. *I Swear* yw'r stori wir am fywyd John Davidson (a chwaraewyd yn wych gan Robert Aramayo *The Rings of Power, The King's Man, Behind Her Eyes*). Ac yntau wedi cael diagnosis o syndrom Tourette yn 15 oed ac wedi'i ystyried fel rhywun gwallgof gan ei gyfoedion, roedd John yn brwydro gyda chyflwr nad oedd llawer o bobl yn gyfarwydd ag ef. Gan ymgyrchu dros syndrom Tourette fel oedolyn, derbyniodd ei MBE gan y Frenhines yn 2019. Hefyd yn serennu Peter Mullan, Maxine Peake.

I blink. I twitch. I jump. I click. I whistle. I shout.
*I Swear* is the true life story of John Davidson (played brilliantly by Robert Aramayo *The Rings of Power, The King's Man, Behind Her Eyes*). Diagnosed with Tourette's at 15 and targeted as insane by his peers, John struggled with a condition few had witnessed. Campaigning for Tourette's as an adult, he accepted his MBE from the Queen in 2019. Also starring Peter Mullan and Maxine Peake.



## On Falling 15

Laura Carriera | UK | Portugal | 2024 | 104"

**Hydref | October 12** – 6.45

Mae'r début trawiadol hwn yn mynd i'r afael â chost ddynol y chwyldro siopa cyfleustra ar-lein a brwydr bwysig i ddod o hyd i ystyr a chysylltiad, wedi'i gosod yn erbyn tirwedd wedi'i dominyddu gan economi gig sy'n cael ei gyrru gan algorithmau a gynllunnir i'n cadw ni ar wahân. Mae'n adrodd hanes Aurora, gweithiwr mudol o Bortiwgal sy'n gweithio mewn warws yng Nghaeredin, yr Alban. Yn sownd rhwng cyfyngiadau canolfan ddosbarthu enfawr ac unigedd ei hystafell wely ei hun, mae Aurora yn chwilio am bob cyfle i wrthsefyll y dieithrio a'r unigedd sy'n bygwth ei synnwyr o hunan.

This impressive debut speaks of the human cost of the online convenience shopping revolution and a vital struggle to find meaning and connection, set against a landscape dominated by an algorithm-driven gig economy designed to keep us apart. It tells the story of Aurora, a Portuguese migrant working as a warehouse picker in Edinburgh, Scotland. Trapped between the confines of a vast distribution centre and the solitude of her own bedroom, Aurora seeks out every opportunity to resist the alienation and isolation that threaten her sense of self.



## Gabby's Dollhouse: The Movie PG TBC

Ryan Crego | Canada | USA | 2025 | 90'

**Hydref | October 17** – 7.00,
**18** – 2.00, 4,45, **19** – 1.30, 4.15,
**21 – 24** – 5.30, **25, 26** – 2.00, 4.45,
**27 – 30** – 1.15, 4.00
**Tachwedd | November**
**2** – 4.15 ST, **8, 9, 15, 16, 22** – 1.30

Ers début y gyfres Gabby's Dollhouse yn 2021, mae plant ledled y byd wedi bod yn cael un parti mawr gyda Gabby a'i ffrindiau ar Netflix.
Yn y ffilm newydd hon, mae Gabby yn mynd allan gyda'i Mam-gu Gigi (Gloria Estefan sydd wedi ennill Gwobr Grammy bedair gwaith) i wlad hudolus drefol Cat Francisco. Ond pan mae Vera (Kristen Wiig, a enwebwyd am Oscar®) yn cael gafael ar dŷ doliau Gabby, mae Gabby yn mynd ar antur drwy'r byd go iawn i achub y tŷ doliau cyn ei fod yn rhy hwyr.

Since the debut of the Gabby's Dollhouse series in 2021, kids around the world have been having one big sprinkle party with Gabby and her friends on Netflix. In this new film, Gabby heads out with her Grandma Gigi (four-time Grammy Award winner Gloria Estefan) to the urban wonderland of Cat Francisco. But when Gabby's dollhouse ends up in the hands of Vera (Oscar® nominee Kristen Wiig), Gabby sets off on an adventure through the real world to save the dollhouse before it's too late.



# From Ground Zero: Stories From Gaza 12A

Reema Mahmoud - Muhammad Al Sharif - Ahmed Hassouna - Islam Al Zeriei - Mustafa Kolab - Nidal Damo - Khamis Masharawi - Bashar Al Bakbisi - Tamer Nijim - Ahmed Al Danaf - Alaa Islam Ayoub - Karim Satoum - Alaa Damo - Aws Al Banna - Rabab Khamis - Etimad Washah - Mustafa Al Nabih - Hana Eleiwa - Wissam Moussa - Basel El Maqousi - Neda'a Abu Hasna - Mahdi Kreirah | Palestine | 2024 | 112'

**Hydref | October 18** – 7.15, **19** – 6.30, **23** – 2.00, **25** – 7.15
**Tachwedd | November 4, 6, 12** – 7.00, **15** – 1.45, **23** – 12.30

Cyflwyniad Palesteina ar gyfer yr Oscars yn 2025 yw'r rhaglen ddogfen glytwaith ryfeddol hon. Mae'n cynnwys 22 ffilm fer, a wnaed gan 22 o wneuthurwyr ffilmiau o Gaza o dan yr amodau anoddaf er mwyn adrodd straeon y rhyfel presennol sydd heb eu hadrodd, llwyfan i artistiaid ifanc fynegi eu hunain trwy eu crefft. Mae pob ffilm yn cyflwyno persbectif unigryw ar y realiti presennol yn Gaza ac mae'r prosiect yn cipio profiadau amrywiol bywyd yn y gilfach Palesteinaidd, gan gynnwys yr heriau, y trasiedïau a'r eiliadau o wytnwch y mae ei phobl yn eu hwynebu. Gan ddefnyddio cymysgedd o genres gan gynnwys ffuglen, dogfen, ffuglen ddogfennol, animeiddio a sinema arbrofol, mae From Ground Zero yn cyflwyno amrywiaeth gyfoethog o straeon sy'n adlewyrchu'r tristwch, y llawenydd a'r gobaith sydd ynghlwm wrth fywyd yn Gaza. Er gwaethaf yr amodau ffilmio llym, mae sîn artistig fywiog Gaza yn disgleirio trwy'r casgliad hwn, gan gynnig portread agos atoch a phwerus o fywyd bob dydd ac ysbryd parhaol ei phobl. Mae *From Ground Zero* yn tystio i gyfnod trasig yn hanes dynoliaeth.

Palestine's entry for the Oscars in 2025 is this extraordinary patchwork documentary comprising 22 short films, made by 22 filmmakers from Gaza under the most difficult conditions to tell the untold stories of the current war, a platform for young artists to express themselves through their craft. Each film presents a unique perspective on the current reality in Gaza and the project captures the diverse experiences of life in the Palestinian enclave, including the challenges, tragedies and moments of resilience faced by its people. Using a mix of genres including fiction, documentary, docu-fiction, animation and experimental cinema, From Ground Zero presents a rich diversity of stories that reflect the sorrow, joy and hope inherent in Gazan life. Despite the harsh filming conditions, Gaza's vibrant artistic scene shines through this collection, offering an intimate and powerful portrait of daily life and the enduring spirit of its people. *From Ground Zero* bears witness to a tragic time in the history of humanity.



## Springsteen:
## Deliver Me from Nowhere 12A TBC

Scott Cooper | USA | 2025 | tbc'

**Hydref | October 24** – 7.15, **25, 26** – 1.30, 4.30, 7.45, **27 – 30** – 1.00, 4.15, 7.15, **31** – 1.00, 4.00
**Tachwedd | November 1** – 1.00, 4.00, **2** – 1.00, 4.00, 7.15, **4** – 7.15, **5** – 7.00 ST, **6** – 2.00, 7.15, **15, 16** – 7.45, **22** – 4.15

Mae *Deliver Me from Nowhere* yn croniclo cyfnod gwneud albwm Nebraska Bruce Springsteen ym 1982. Wedi'i recordio ar recordydd 4 trac yn ystafell wely Springsteen yn New Jersey, roedd yr albwm yn nodi cyfnod allweddol yn ei fywyd ac fe'i hystyrir yn un o'i weithiau mwyaf bythol - record acwstig amrwd, teimladwy, yn llawn eneidiau coll yn chwilio am reswm i gredu. Mae Jeremy Allen White (*The Bear*) yn cymryd y brif ran yn y ffilm fywgraffyddol hon a ddisgwylir yn eiddgar. Gyda Stephen Graham hefyd.

*Deliver Me from Nowhere* chronicles the making of Bruce Springsteen's 1982 Nebraska album. Recorded on a 4-track recorder in Springsteen's New Jersey bedroom, the album marked a pivotal time in his life and is considered one of his most enduring works - a raw, haunted acoustic record populated by lost souls searching for a reason to believe. Jeremy Allen White (*The Bear*) takes the lead role in this hotly anticipated biopic, also starring Stephen Graham.



## The Marching Band 15

Emmanuel Courcol | 2024 | France | 103'

**Hydref | October 26** – 6.45

Mae Thibaut yn arweinydd sy'n enwog yn rhyngwladol ac yn teithio'r byd. Pan mae'n dysgu ei fod wedi cael ei fabwysiadu, mae'n darganfod bod ganddo frawd iau, Jimmy, sy'n gweithio mewn ffreutur ysgol ac yn chwarae'r trombôn mewn band gorymdeithio bach. Mae fel petai pob dim amdanynt yn wahanol, ar wahân i'w cariad at gerddoriaeth. Gan sylweddoli bod gan ei frawd dalent eithriadol, mae Thibaut yn penderfynu unioni anghyfiawnder ffawd. Mae Jimmy yn dechrau breuddwydio am fywyd gwahanol...

Thibaut is an internationally renowned conductor who travels the world. When he learns he was adopted, he discovers the existence of a younger brother, Jimmy, who works in a school cafeteria and plays the trombone in a small marching band. Everything seems to set them apart, except their love of music. Sensing his brother's exceptional talent, Thibaut decides to remedy the injustice of fate. Jimmy begins to dream of a different life...



## Pets On A Train PG TBC

Benoît Daffis | Jean-Christian Tassy | France | USA | 2025 | 99’

**Hydref | October 31** – 1.30
**Tachwedd | November 1, 2** – 1.30, **8** – 1.00, **9, 15, 16** – 1.15, **22** – 1.15 R, **23** – 1.15

Pan mae criw o anifeiliaid â dwylo blewog yn mynd ati un diwrnod i ddwyn, maen nhw’n cael eu hunain ynghanol lladrad trên, diolch i Hans, mochyn daear dialgar sy’n ceisio talu’r pwyth yn ôl. Er bod gwrthdrawiad fel petai’n anochel, gall yr anifeiliaid anwes ddibynnu ar Falcon, racŵn cyfrwys a dyfeisgar, a Rex, ci heddlu cyfiawn, i achub yr anifeiliaid ar y trên cyflym hwn sy’n rhedeg heb allu stopio.

When a crew of animal bandits embark on a routine swindle, they find themselves caught up in a train heist thanks to Hans, a vengeful badger seeking revenge. While a crash seems inevitable, the pets can count on Falcon, a sly and resourceful raccoon, and Rex, a righteous police-dog, to save the animals aboard this high-speed runway train.



## Good Fortune 15

Aziz Ansari | USA | 2025| 97’

**Hydref | October 31** – 4.15
**Tachwedd | November 1** – 4.15, **2** – 7.00, **4** – 7.30 ST, **5, 6** – 7.30

Mae angel di-glem o’r enw Gabriel (Keanu Reeves) yn llawn bwriadau da. Mae’n ymyrryd ym mywydau gweithiwr llawrydd sy’n cael amser caled, Arj (Aziz Ansari), a chyfalafwr menter cyfoethog, Jeff (Seth Rogen). Un diwrnod, mae Gabriel yn sylwi ar Arj, sydd wedi cyrraedd ei bwynt isaf ar ôl i’w gar gael ei lusgo o faes parcio Denny’s, yn cysgu yn un o’u bythau. Gan ymyrryd yn ei anffawd, mae Gabriel yn ceisio argyhoeddi Arj na fyddai bod yn gyfoethog fel Jeff yn datrys ei broblemau trwy fynd ati i swapio bywydau’r ddau ddyn.

A well-meaning but rather inept angel named Gabriel (Keanu Reeves) meddles in the lives of a struggling gig worker, Arj (Aziz Ansari), and a wealthy venture capitalist, Jeff (Seth Rogen). One day, Gabriel notices Arj, who has hit rock-bottom after having his car towed from the Denny’s parking lot, asleep in one of their booths. Intervening in his plight, Gabriel tries to convince Arj that being wealthy like Jeff would not solve his problems by swapping the two men’s lives.



## Roofman 15

Derek Cianfrance | USA | 2025 | 125’

**Tachwedd | November**
**7 – 9** – 7.15, **11** – 7.45, **12** – 7.30 ST, **13** – 7.30

Ffilm sy’n seiliedig ar stori wir anhygoel. Channing Tatum sy’n chwarae rhan Jeffrey Manchester, tad gyda bywyd anodd sy’n troi at ladrata bwytai McDonald’s trwy fynd ati i dorri tyllau yn eu toeau, gan arwain at y llysenw Roofman. Ar ôl dianc o’r carchar, mae’n byw’n dawel bach tu fewn siop Toys “R” Us, heb neb yn dod ar ei draws wrth iddo gynllunio ei gam nesaf. Ond pan mae’n syrthio mewn cariad â Leigh (Kirsten Dunst), mam wedi’i hysgaru sy’n cael ei denu at ei swyn diamheuol, mae ei fywyd dwbl yn dechrau datod, gan sbarduno gêm gyffrous o gath a llygoden wrth i’w orffennol gau o’i gwmpas.

Based on an unbelievable true story, Channing Tatum plays Jeffrey Manchester, a struggling father who turns to robbing McDonald’s restaurants by cutting holes in their roofs, earning him the nickname: Roofman. After escaping prison, he secretly lives inside a Toys “R” Us, surviving undetected while planning his next move. But when he falls for Leigh (Kirsten Dunst), a divorced mum drawn to his undeniable charm, his double life begins to unravel, setting off a suspenseful game of cat and mouse as his past closes in.



## The Choral 12A TBC

Nicholas Hytner | UK | USA | 2025 | 113’

**Tachwedd | November 7** – 7.30, **8** – 3.45, 6.45, **9** – 4.00, 7.00, **11** – 7.00, **12** – 7.15, **13** – 2.00, 7.15, **14** – 7.15, **15, 16** – 4.00, 7.00, **17** – 7.45, **18** – 7.45 ST, **19** – 7.45, **20** – 2.00, 7.45, **25** – 7.30, **26** – 7.00, **27** – 7.30, **28** – 7.15, **30** – 7.30
**Rhagfyr | December 13, 14** – 3.45

1916. Gyda rhyfel ar y Ffrynt Gorllewinol, mae Cymdeithas Gorawl Ramsden, Swydd Efrog, wedi colli’r rhan fwyaf o’i dynion i’r fyddin. Mae’r pwyllgor uchelgeisiol yn penderfynu recriwtio pobl ifanc leol i ehangu eu rhengoedd a rhaid iddynt hefyd gyflogi meistr côr newydd. Er gwaethaf eu hamheuon amdano, eu hopsiwn gorau yw’r digyfaddawd Dr. Henry Guthrie (Ralph Fiennes) sydd newydd ddychwelyd o yrfa yn yr Almaen. Wrth i bapurau consgripsiwn ddechrau cyrraedd, mae’r gymuned yn darganfod mai’r ymateb gorau i’r anhrefn yw gwneud cerddoriaeth gyda’i gilydd.

1916. As war rages on the Western Front, the Choral Society in Ramsden, Yorkshire has lost most of its men to the army. The ambitious committee decides to recruit young locals to swell their ranks and they must also engage a new chorus master. Despite their suspicions about him, their best bet seems to be the uncompromising Dr. Henry Guthrie (Ralph Fiennes) who’s recently returned from a career in Germany. As conscription papers start to arrive, the community discovers that the best response to the chaos is to make music together.



## Vermiglio 15

Maura Delpero | 2024 | Italy | France | Belgium | 119’

**Tachwedd | November 9** – 6.30

1944. Yn Vermiglio, pentref sy’n uchel ym mynyddoedd Alpau’r Eidal mae’r rhyfel yn fygythiad pell ond cyson. Mae dyfodiad Pietro, ffoadur milwrol, yn tarfu ar ddeinameg teulu’r athro lleol, gan eu newid am byth. Yn ystod y pedwar tymor sy’n nodi diwedd yr Ail Ryfel Byd, mae Pietro a Lucia, merch hynaf yr athro, yn cael eu denu at ei gilydd ar unwaith, gan arwain at briodas a thynged annisgwyl. Wrth i’r byd ddygymod â’i drasiedi, bydd y teulu’n wynebu ei drasiedi ei hun.

1944. In Vermiglio, a high mountain village of the Italian Alps, war looms as a distant but constant threat. The arrival of Pietro, a refugee soldier, disrupts the dynamics of the local teacher’s family, changing them forever. During the four seasons marking the end of World War II, Pietro and Lucia, the eldest daughter of the teacher, instantly drawn to each other, are led to marriage and an unexpected fate. As the world emerges from its tragedy, the family will face its own.



## Bugonia 15 TBC

Yorgos Lanthimos | Ireland | South Korea | Canada | USA | 2025 | tbc'

**Tachwedd | November 14** – 7.30, **15, 16** – 7.15, **17 – 19** – 7.00, **20** – 7.00 ST, **22** – 7.00

Mae'r gwneuthurwr ffilmiau clodwiw o Roeg, Yorgos Lanthimos (*The Lobster, The Favourite, Poor Things*), yn ymuno â'r actores Emma Stone unwaith eto ar gyfer y ffilm gyffro ddirgelwch Bugonia. Mae dau ddyn ifanc sydd ag obsesiwn am gynllwyn yn mynd ati i herwgipio Prif Swyddog Gweithredol pwerus cwmni mawr, gan eu bod nhw wedi'u hargyhoeddi mai estron yw hi sy'n bwriadu dinistrio'r Ddaear. Gyda Jesse Plemons ac Alicia Silverstone hefyd.

The acclaimed Greek film-maker Yorgos Lanthimos (*The Lobster, The Favourite, Poor Things*), joins forces with actor Emma Stone once again for mystery thriller Bugonia. Two conspiracy-obsessed young men kidnap the high-powered CEO of a major company, convinced that she is an alien intent on destroying planet Earth. Also starring Jesse Plemons and Alicia Silverstone.



## Wicked: For Good PG TBC

Jon M. Chu | USA | 2025 | tbc'

**Tachwedd | November 21** – 7.00, **22** – 1.00, 4.30, 7.15, **23** – 12.15, 3.45, 7.15, **25, 26** – 6.45, **27** – 2.00, 7.15, **28** – 7.00, **29, 30** – 12.15, 3.45, 7.15
**Rhagfyr | December 2** – 7.00, **3** – 7.30, **4** – 2.00, 7.15 ST, **6, 7** – 12.45, 4.15, **13, 14** – 12.45, **19** – 7.30, **21, 23** – 6.30

